

# Dewch i ddathlu!

Dysgu creadigol drwy'r celfyddydau

Mae ***Dysgu creadigol drwy'r celfyddydau: cynllun gweithredu i Gymru 2015-2020***, sy'n cael cymorth ariannol gan Lywodraeth Cymru a Chyngor Celfyddydau Cymru, bellach wedi cyrraedd mwy na **70** y cant o ysgolion Cymru. Mae hynny'n golygu bod dros **100,000** o ddisgyblion wedi cael dysgu am y celfyddydau a diwylliant, cymryd rhan yn y celfyddydau, a datblygu sgiliau creadigol ar draws y cwricwlwm. Mae hynny'n destament i orchestion bendigedig yr holl athrawon, proffesiynolion creadigol a dysgwyr sydd wedi cymryd rhan.

Cyngor Celfyddydau Cymru
Arts Council of Wales

ARIENNIR GAN Y LOTERI
LOTTERY FUNDED

Ariennir yn Rhannol gan
Lywodraeth Cymru
Part Funded by
Welsh Government

*Clawr blaen:* Cwmni'r Frân Wen ac Ysgol Pendalar, Cydweithio Creadigol (llun: Kristina Banholzer)



Ein Cenhadaeth Genedlaethol ar gyfer Addysg yw codi safonau, cau'r bwlch cyrhaeddiad, a darparu system addysg sy'n destun balchder a hyder i'r genedl gyfan. Rydyn ni wedi ymrwymo i lwyddiant a lles pob dysgwr, dim ots beth yw eu cefndir na'u hamgylchiadau personol.

Wrth gwrs, mae creadigrwydd yn flaenllaw ac wrth galon ein cwricwlwm newydd trawsnewidiol, ac rwy'n credu yn ei bŵer i sbarduno brwdfrydedd, ysbrydoli a chodi dyheadau pobl ifanc Cymru. Dyna pam y bydd y Celfyddydau Mynegiannol yn un o'r chwe Maes Dysgu a Phrofiad, ac un o bedwar diben y cwricwlwm – gan gynorthwyo ein plant a'n pobl ifanc i fod yn gyfranwyr mentrus a chreadigol, sy'n barod i chwarae rhan gyflawn mewn bywyd a gwaith.

Mae hyn yn gyson â diben a dull gweithredu *Dysgu creadigol drwy'r celfyddydau*, ac wrth i ni fwrw ymlaen â'r cwricwlwm newydd, mae yna ddigonedd o arferion da y gallwn ddysgu ohonynt a'u rhoi ar waith drwyddi draw.

Rwy'n falch o'r hyn sydd wedi cael ei gyflawni trwy'r rhaglen eisoes, a hoffwn ddiolch i bawb sydd wedi gweithio i'w gwneud yn gymaint o lwyddiant.

**Kirsty Williams AC**
Y Gweinidog Addysg



*Dysgu creadigol drwy'r celfyddydau* yw un o'r esiamplau mwyaf cyffrous yn unrhyw le o osod y celfyddydau wrth galon y gymdeithas fel y gallant newid bywydau pobl. Mae cannoedd o'n hysgolion yng Nghymru'n rhannu straeon â ni sy'n dangos pŵer y rhaglen i newid profiadau dysgwyr.

Mae'r rhan fwyaf o bobl yn credu bod creadigrwydd a'r dychymyg yn bwysig i les ac ansawdd bywyd pobl. Ond mae'r rhaglen arloesol ac ysbrydoledig yma wedi mynd gam ymhellach wrth ddangos y gwahaniaeth y maent yn ei gwneud i ddysgu creadigol. Mae profiadau o'r celfyddydau a chael artistiaid yn cydweithio gydag athrawon a myfyrwyr ar draws y cwricwlwm wedi trawsnewid cyrhaeddiad.

Mae cael eu tynnu i mewn i ddyfeisgarwch a chydweithio i ddatrys problemau trwy ddysgu creadigol yn ymgysylltu ac yn cymell dysgwyr. Ac mae hyn oll yn agor llwybrau newydd i ddysgu a deall. Nid yw'n syndod felly bod lefelau perfformiad ym meysydd llythrennedd a rhifedd yn codi.

Ond yn bwysicach eto, mae'r plant a'r bobl ifanc yn datblygu i'r mathau o ddysgwyr y mae gwir eu hangen arnom ar gyfer ein dyfodol ni i gyd - mewn byd lle caiff tasgau ailadroddus eu hawtomeiddio mwyfwy, a lle bydd bodau dynol yn gwneud gwahaniaeth trwy eu doniau a'u nodweddion anhepgor - creadigrwydd, dychymyg, empathi a sgiliau cydweithio.

Bydd cyfoeth o'r doniau a'r nodweddion hyn i'w gweld yn ystod yr wythnos yma o ddathlu. Mwynhewch, a mynnwch ysbrydoliaeth!

**Phil George**
Cadeirydd, Cyngor Celfyddydau Cymru

# Y Cynllun Ysgolion Creadigol Arweiniol

Nod y **Cynllun Ysgolion Creadigol Arweiniol** yw hybu ffyrdd newydd o weithio mewn ysgolion gan ddysgu trwy'r celfyddydau, er mwyn darparu cyfleoedd i ddatblygu rhaglen ddysgu arloesol a phwrpasol â'r nod o drawsnewid yr addysgu a'r dysgu. Mae'r cyfan yn troi o gylch yr ysgol unigol a'r sialensiau dysgu penodol sy'n ei hwynebu. Gall Ysgol Greadigol Arweiniol fanteisio ar bobl, sgiliau ac adnoddau creadigol i'w chynorthwyo ac i fynd i'r afael â'r sialensiau hyn.

Mae'r cynllun yn defnyddio technegau addysgu a dysgu datblygedig sydd wedi eu dylunio'n benodol i fod yn ymarferol ac yn berthnasol i ysgolion a'u gofynion penodol nhw o ran y cwricwlwm.

Mae'r technegau wedi cael eu bwydo gan waith ymchwil helaeth o bedwar ban y byd, o ran beth sy'n creu ysgol sy'n perfformio i safon uchel. Mae'r Cynllun Ysgolion Creadigol Arweiniol yn meithrin ac yn datblygu creadigrwydd y dysgwyr fel eu bod yn gwireddu eu potensial, yn tyfu fel unigolion cyflawn, ac yn cael eu taclu â sgiliau am oes. Mewn byd sy'n newid ar garlam, rydyn ni am wneud yn siŵr bod ein plant a'n pobl ifanc yn gallu bodloni anghenion yr economi, a llewyrchu o fewn amgylchedd mwyfwy cystadleuol bywyd pob dydd.




Ysgol Bro Dinefwr

Ysgol Gynradd Gymunedol Aber-miwl

# Goruwchstrwythurau - gwella sgiliau mathemateg gymhwysol, mwynhad a hyder mewn mathemateg, a llais y disgybl.



36 o ddysgwyr Blynyddoedd 5 a 6 (o'r ddwy ysgol)

**Asiant Creadigol:** Bethan Page
**Ymarferwyr Creadigol:**
Amy Sterly – artist gweledol,
Jo Munton – pypedwr, bardd a pherfformiwr

Creu sioe oedd nod terfynol y prosiect yma yn Ysgol Gynradd Gymunedol Aber-miwl, ac roedd yn cynnwys creu a defnyddio pypedau ac elfennau o animeiddio wedi ei ysbrydoli gan oruwchstrwythur penodol - *'The Iron Giant'* sef y llyfr y mae'r dosbarth yn ei ddarllen y tymor hwn. Mae Ysgol Sant Michael (yr ysgol bartner) wedi bod yn archwilio goruwchstrwythurau trwy weithio mewn tri dimensiwn gan greu strwythurau tri dimensiwn a chynhyrchu darluniau, recordiadau sain, fideos a ffotograffau. Mae'r Cynllun Ysgolion Creadigol Arweiniol wedi cael effaith gadarnhaol iawn ar hyder y disgyblion a'u mwynhad yn yr ysgol, ac mae'n culhau'r bwlch cyrhaeddiad rhwng y rhai sy'n dod o gefndiroedd difreintiedig yn y ddwy ysgol.

Mathemateg a Rhifedd

## Ysgol Gynradd Bracla

# Lansio Corfforaeth Ddarlledu Bracla: A all creu tîm cynhyrchu radio a gorsaf radio dan arweiniad y disgyblion godi safonau llafaredd yn Gymraeg a Saesneg?

O dan arweiniad eu Hymarferwyr Creadigol a'r athro dosbarth, mae tîm cynhyrchu o ddisgyblion (a ffurfiwyd o eGadetiaid, disgyblion MATh a Chriw Cymraeg yr ysgol) wedi bod yn cydweithio i ddatblygu eu gorsaf radio eu hunain i'r ysgol. Rhoddodd y sesiynau cyntaf gyfle i'r disgyblion wrando ar amrywiaeth o raglenni radio a phodlediadau, ac ymateb iddynt, er mwyn dadansoddi beth sy'n creu darllediad difyr. Gyda'r wybodaeth yma, bu modd i'r dysgwyr fynd ati i ddyfeisio fformat ar gyfer gorsaf radio'r ysgol, a datblygu eu sgiliau llythrennedd yn Gymraeg a Saesneg trwy ysgrifennu a chyflwyno eu syniadau. Dangoswyd sgiliau Cymhwysedd Digidol trwy ddefnyddio caledwedd a meddalwedd er mwyn recordio, golygu a darlledu'r rhaglen ar wefan yr ysgol.

33 o ddysgwyr Blwyddyn 5 a 6

**Asiant Creadigol:** Glenda Jones
**Ymarferwyr Creadigol:**
Aled Richards, Dan Lawrence

Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu

Cymhwysedd Digidol

Ysgol Gyfun Bryntirion

# A all creu a defnyddio gwrthrychau ac arteffactau perfformio effeithio ar sgiliau llafaredd disgyblion Blwyddyn 8 a'u hymgysylltiad yn eu dysgu?

Dros gyfnod o wyth wythnos, bu artist gweledol, ymarferydd theatr a gwneuthurwr ffilmiau'n gweithio ochr yn ochr â dau athro a dosbarth o ddisgyblion Blwyddyn 8 i ddatblygu eu sgiliau trafod cyffredinol. Nod hyn oedd archwilio dulliau o ymgysylltu disgyblion mewn dysgu trwy arferion rhyngddisgyblaeth, â ffocws penodol ar Hanes, Saesneg, Celf, Cerddoriaeth a Pherfformio. 'Arwyr Cymreig' oedd y thema yr esblygodd y prosiect oddi mewn iddi – wrth fynd â goroeswyr y byd i'r blaned newydd, Cymrunion.

Yn ôl lefelau cyrhaeddiad y grŵp sampl, bu gwelliant amlwg yn eu sgoriau llafaredd. Y teimlad oedd iddynt fagu hyder trwy'r prosiect; a bod hynny wedi sbarduno datblygiadau ym mhob un o'r 5 Arfer Creadigol y Meddwl.

28 o ddysgwyr Blwyddyn 8

**Asiant Creadigol:** Heather Parnell
**Ymarferwyr Creadigol:**
Carlos Pinnati – artist gweledol
Jonathan Dunn – gwneuthurwr ffilmiau
Hannah Noone – ymarferydd theatr

Celfyddydau Mynegiannol


Dyniaethau

Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu

## Ysgol Uwchradd Gymunedol Gorllewin Caerdydd

**Gwneud Mathemateg yn Gofiadwy: archwilio sut y gellir defnyddio dealltwriaeth a defnydd dysgwyr o ddulliau cyfrifo safonol (adio, tynnu, lluosi a rhannu) i godi safonau mewn rhifedd.**

Yn ystod camau cynnar y prosiect, bu gofyn i'r disgyblion ddefnyddio eu sgiliau rhifedd, gyda ffocws ar ddulliau cyfrifo safonol, i ddatrys cyfres o sialensiau rhif a fyddai'n caniatáu iddynt ddatgloi cistiau a chael y trysor oedd ynddynt. Bu angen iddynt gydweithio â'u cyfoedion mewn grwpiau bach a mawr, a dyfalbarhau er mwyn datrys y posau. Roedd yr ystafell ddosbarth yn aml yn ferw o brysurdeb gyda disgyblion a oedd yn awyddus ar agor y gist drysor yn helpu grwpiau eraill ar ôl cwblhau eu sialensiau eu hunain!  Modelodd yr Ymarferydd Creadigol a'r athro mathemateg wahanol sialensiau rhifedd yn gysylltiedig ag Ystafell Ddianc, a oedd yn caniatáu i'r dysgwyr fyfyrio ar ba dasgau y cawsant hwyl arnynt ac y gallent eu hefelychu wrth lunio eu syniadau eu hunain. Rhoddodd gwaith ategol gyfle i'r dysgwyr roi cynnig ar greu eu posau mathemateg eu hunain fel y gallent ymarfer a phrofi syniadau ar gyfer eu hystafell ddianc eu hunain. Yn ystod tymor y gwanwyn, dechreuodd y disgyblion ddylunio ac adeiladu eu senarios Ystafell Ddianc eu hunain. Roedd hyn yn gofyn bod y disgyblion yn defnyddio eu sgiliau rhifedd i greu'r posau, ac yn archwilio eu gallu i fesur a phennu graddfa er mwyn creu blychau model i'w cynorthwyo i gynllunio'r ystafell ddianc derfynol.



14 o ddysgwr Blwyddyn 7

**Asiant Creadigol:** Rhian Hutchings
**Ymarferydd Creadigol:** Sandra Gustafsson

Mathemateg a Rhifedd

## Ysgol Gynradd Cantref

# Y Llwybr i Lythrennedd Gweledol - Mae Llun Gwerth Mil o Eiriau

Bu'r disgyblion yn gweithio i wella eu sgiliau llafaredd, cyfathrebu a gwaith tîm trwy gyfrwng ffotograffiaeth, ac yn dysgu sut i ddelweddu'r byd. Aethant ati i archwilio eu creadigrwydd eu hunain mewn ffyrdd newydd trwy gyfansoddi ffotograffau, a'u cymhwysedd digidol trwy ddefnyddio eu dawn artistig i greu delweddau newydd ac ail-ddehongli hen ddelweddau.

30 o ddysgwyr Blwyddyn 3

**Asiant Creadigol:** Stuart Bawler
**Ymarferydd Creadigol:** Kelly O'Brien

Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu

Cymhwysedd Digidol

---

## Ysgol Gyfun Cynffig

# Sut gallwn wneud yr ysgol yn begwn o arfer dda trwyddysgu creadigol?

Trwy archwilio'r cysyniad o fentro yn yr ystafell ddosbarth, mae'r prosiect hwn yn meithrin 5 Arfer Creadigol y Meddwl er mwyn gwella'r dysgu ar gyfer yr athrawon a'r dysgwyr fel ei gilydd. Nod y prosiect, sydd ar y gweill ar hyn o bryd, yw canfod ymhle y gellir rhoi dulliau creadigol o ddysgu ar waith o fewn yr ysgol cyn cyflwyno'r cwricwlwm newydd.

Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu

30 o ddysgwyr Blwyddyn 7

**Asiant Creadigol:** Ruth Garnault
**Ymarferydd Creadigol:** Glenda Jones

## Ysgol Gyfun Cefn Saeson ac Ysgol Gynradd Crynallt



### A all creu ffilmiau helpu i wella dealltwriaeth y disgyblion am eu hawliau, wrth feithrin dawn greadigol?

Gan weithio gyda gwneuthurwr ffilmiau ac actor, mae disgyblion y ddwy ysgol wedi bod yn archwilio hawliau plant mewn ffordd greadigol, ac wedi ystyried sut mae'r hawliau hyn yn effeithio arnynt o fewn amgylchedd yr ysgol. Mae'r disgyblion wedi cael eu hyfforddi i ddefnyddio dulliau creadigol o weithio, a byddant yn gweithredu fel 'cynghorwyr creadigol' i'w hathrawon, gan eu cynorthwyo i blannu gwreiddiau addysgu a dysgu creadigol yn yr ystafell ddosbarth. Menter ar y cyd gan y ddwy set o ddisgyblion o dan sylw o'r ddwy ysgol yw'r ffilm a grëwyd. Wrth hunanwerthuso, cofnododd y disgyblion gynnydd sylweddol ym 5 Arfer Creadigol y Meddwl.

---

Grŵp cymysg o ddysgwyr o'r ddwy ysgol

**Asiant Creadigol:** Morag Colquhoun
**Ymarferwyr Creadigol:**
James Scannell a Rural Media

Iechyd a Lles

## Ysgol Gyfun Cefn Saeson




Cafodd y prosiect ei lunio a'i gyflwyno gan grŵp o fechgyn. Prosiect oedd hwn a oedd yn adrodd stori grŵp o droseddwyr ifanc sy'n newid eu byd trwy bêl-droed. Defnyddiwyd data meincnodi ar sail lefelau CA3 a lefelau asesiadau cynnar Blwyddyn 10 i fesur cyflawniad y dysgwyr cyn ac ar ôl y prosiect. Gosodwyd ffug-arholiad Saesneg llafar hefyd. Ar ôl cwblhau'r prosiect, roedd 88% o'r dysgwyr wedi codi o leiaf hanner gradd, a'r gweddill wedi cynnal eu graddau blaenorol. Llwyddodd dau o'r dysgwyr i gael gradd oedd ddwy lefel yn uwch na'u gradd flaenorol. Wrth hunanwerthuso, cofnododd pob un o'r dysgwyr gynnydd ym mhob un o'r 5 Arfer Creadigol y Meddwl.


### 'Llwybr Gogoniant' – a all prosiect pontio digidol gael effaith trwy wella hyder, lles, llythrennedd a hyfedredd digidol dysgwyr cyfredol a rhai'r dyfodol o fewn amgylchedd yr ysgol?

16 o ddysgwyr Blwyddyn 10

**Asiant Creadigol:** Morag Colquhoun
**Ymarferwyr Creadigol:**
James Scannell, Nathan Williams

**Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu**


Gwelliannau mewn llefaredd fesul gradd - data cyn ac ar ôl y prosiect
Nifer y disgyblion
7
6
5
4
3
2
1
0
Dim newid
0.5 gradd
1 radd
1.5 gradd
2 radd
Gwelliannau mewn Graddau


% Gwelliant mewn Arferion Creadigol y Meddwl
100
90
80
70
60
50
40
30
20
10
0
Disgybl 1
Disgybl 2
Disgybl 3
Disgybl 4
Disgybl 5
Disgybl 6
Disgybl 7
Cyn y prosiect
Ar ôl y prosiect

## Ysgol Gynradd Cwm Glas




### A all dull gweithredu creadigol wella sgiliau darllen strategol, cyfoethogi mwynhad, a meithrin agweddau cadarnhaol at ddarllen?

Bu'r disgyblion yn gweithio i ddatblygu eu sgiliau llythrennedd a dod o hyd i ffyrdd o wella eu cysyniadau am eiriau sy'n anodd eu darllen, gan gynnwys creu eu teip-wyneb eu hunain ar gyfer yr ysgol. Dyluniodd yr ysgol a'r ymarferwyr gymeriadau arloesol i adlewyrchu 5 Arfer Creadigol y Meddwl - ar ffurf creaduriaid cyfeillgar y goedwig - a oedd yn ymddangos mewn stori a gafodd ei llunio, ei chynhyrchu a'i chyhoeddi gan y dysgwyr.

Bu deilliannau'r prosiect yn gadarnhaol i'r holl ddysgwyr, y gellid gweld hyn yn eu data perfformiad o ran darllen a'u hyder wrth berfformio eu stori.

30 o ddysgwyr Blwyddyn 1 a 2

**Asiant Creadigol:** Lucy Thomas
**Ymarferwyr Creadigol:** Greg Ryan a Gary-Martin Rolinson (Pyka)

Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu

Cymhwysedd Digidol

## Ysgol Gynradd Dewstow



# I ba raddau y gall dysgu creadigol yn yr awyr agored effeithio ar les a gwaith ysgrifennu'r disgyblion?

Defnyddiwyd dysgu yn yr awyr agored ac animeiddio i archwilio diwylliant a thraddodiadau pobloedd cyntaf Gogledd America. Roedd y gweithgareddau dan do ac awyr agored yn cynnwys creu arteffactau, adeiladu cuddfannau, cyfeiriannu a chynhyrchu ffilm ddogfen a oedd yn cynnwys rhannau animeiddiedig. Datblygodd y prosiect ddealltwriaeth y disgyblion am faterion lles, er enghraifft, sut i ddelio â phryderon, adnabod teimladau ac empathi dros bobl eraill a'r amgylchedd. Yn ogystal â gwelliannau mewn llafaredd, datblygodd y disgyblion eu sgiliau cymhwysedd digidol, eu deallusrwydd emosiynol a'u gallu i gydweithio.

30 o ddysgwyr Blwyddyn 3

**Asiant Creadigol:** Bev Symonds (Healthy Happy Clever Education)
**Ymarferwyr Creadigol:**
Craig Armiger
(Outdoor Coaching UK)
Darren Latham
(Blue Monkey Animation)

Iechyd a Lles | Dyniaethau | Cymhwysedd Digidol

Ysgol Gynradd Gwaunmeisgyn



## A all dysgu yn yr awyr agored drwy gyfrwng y celfyddydau gweledol ac adrodd stori wella safon sgiliau llafaredd?

Cafodd dysgwyr Blwyddyn 1 brofiad o amrywiaeth o straeon, wrth ailadrodd a chreu eu naratif eu hunain gan ddefnyddio gwrthrychau a gafodd eu casglu neu eu creu yn ystod y prosiect. Archwiliwyd amrywiaeth o weithgareddau creadigol gan ddefnyddio drama, cylchoedd stori, ffeltio a gwehyddu. Rhoddodd y prosiect gymhelliant a brwdfrydedd i'r dysgwyr a oedd yn cwmpasu sgiliau llafaredd, gwrando ac ysgrifennu. Drwy fodelu iaith o safon uchel, dangoswyd i'r dysgwyr sut i fynegi llafaredd â chyflymder priodol, a rhoddwyd cyfleoedd iddynt ddefnyddio geirfa anturus. Cafodd y prosiect effaith ar draws sgiliau llafaredd, gwrando ac ysgrifennu'r disgyblion; gan gyfoethogi eu hymdeimlad o hunan-barch a hunan-werth, a chodi safonau'r ysgol ym maes Addysg Bersonol a Chymdeithasol.

---

35 o ddysgwyr Blwyddyn 1

**Asiant Creadigol:**
Gemma Fraser-Jones
**Ymarferwyr Creadigol:**
Rachel Williams a Tamar Williams

**Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu**

## Ysgol Uwchradd Gwernyfed

# Sut y gellir defnyddio diwylliant poblogaidd i wella sgiliau llythrennedd dysgwyr?

10 o ddysgwyr Blwyddyn 8

**Asiant Creadigol:** Linda Jane James
**Ymarferwyr Creadigol:**
Kerrie Reading, Dean Yhnell

Ffocws y prosiect hwn oedd gwella safonau llythrennedd a meddwl creadigol y bechgyn. Tyfodd hyder y dysgwyr ac roeddynt yn hapus i rannu eu syniadau wrth gydweithio i greu posteri ac apiau. Dangosodd 35% o'r dysgwyr gyrhaeddiad uwch mewn llafaredd yn sgil y prosiect.

**Gwyddoniaeth a Thechnoleg**

## Ysgol Gynradd Llandeilo Bertholau

# A all dull creadigol o ddysgu llythrennedd wella sgiliau darllen a llafaredd dosbarth Blwyddyn 1?

28 o ddysgwyr Blwyddyn 1

**Asiant Creadigol:** Helen Vincent-Tibke
**Ymarferydd Creadigol:** Stuart Bawler

Ysgrifennodd y disgyblion *Stori Umbobba yr Ellyll,* cyn ei pherfformio gan ddefnyddio pypedau a chefndiroedd UV sy'n tywynnu yn y tywyllwch. Yn ystod y prosiect, bu'r disgyblion yn edrych ar gonfensiynau straeon traddodiadol trwy adrodd straeon, dylunio setiau, gwneud pypedau a chreu'r perfformiad. Gwelwyd gwelliant yn sgiliau llafaredd y disgyblion o ganlyniad i'w gwaith prosiect, am eu bod yn defnyddio'r technegau yr oeddent wedi eu dysgu i siarad yn glir a defnyddio mynegiant.

**Cymhwysedd Digidol** | **Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu**




Fideos Llancaiach-Minecraft, 2:41, 5:33, 7:30

## A all dulliau creadigol o addysgu lythrennedd a TG ddod â phwnc y Tuduriaid yn fyw i holl ddysgwyr Blwyddyn 6, ac yn arbennig y bechgyn?

Ffocws y prosiect hwn oedd llythrennedd a hanes yn seiliedig ar ymweliad ymchwil â Maenordy Llancaiach Fawr. Lluniodd y dysgwyr ddyddlyfrau ymchwil gyda nodiadau, lluniau, darluniau a chynlluniau stori er mwyn cyfarwyddo'r straeon ysgrifenedig, wedyn aethant i drosi'r rhain yn Minecraft. Cyflwynodd y dysgwyr y straeon cyfun Llancaiach-Minecraft i'w rhieni, staff y Maenordy a dehonglwyr hanesyddol mewn achlysur dathlu yn y Maenordy. Dangosodd yr holl ddysgwyr gyrhaeddiad uwch yn eu gwaith ysgrifennu, a llwyddodd 93% i gyflawni lefelau Saesneg a oedd yn gyson â'u hoedran ar ddiwedd y Cyfnod Allweddol. Mae safonau ysgrifennu a llafaredd da yn amlwg yn y straeon a'r fideos a grëodd y dysgwyr yn ystod y prosiect ymdrochi yma.

Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu

Cymhwysedd Digidol

28 o ddysgwyr Blwyddyn 6

**Asiant Creadigol:** Susan Woods
**Ymarferydd Creadigol:** Kath Morton-Smith

## Ysgol Gynradd Llwyn-y-pia

# A all defnyddio dulliau creadigol o greu straeon wella cyrhaeddiad dosbarth Blwyddyn 1 ym maes llafaredd?

Trwy gyfryngau adrodd straeon a chrefftau, archwiliodd y dysgwyr chwedlau a straeon hanesyddol Cymru er mwyn dylunio a chreu gwisgoedd, propiau a datblygu cymeriadau. Dyfalbarhaodd y disgyblion i ddatblygu, addasu a gwella'u creadigaethau ar sail llais y disgybl ac adborth parhaus. Yn ogystal, rhoddodd y prosiect blatfform i'r dysgwyr ymchwilio i amgylchedd yr ysgol a'u milltir sgwâr, gan fwydo eu chwilfrydedd am y byd o'u cwmpas.

Mae disgyblion Blwyddyn 1 wedi cyflawni'r targed o ysgrifennu straeon. At hynny, maent wedi gwneud cynnydd da mewn meysydd eraill hefyd fel llafaredd a datblygiad personol a chymdeithasol. Mae'r Cynllun Ysgolion Creadigol Arweiniol wedi annog staff Ysgol Gynradd Llwyn-y-pia i feddwl y tu hwnt i ddulliau mwy confensiynol o addysgu a defnyddio ardaloedd dysgu y tu hwnt i'r ystafell ddosbarth.

31 o ddysgwyr Blwyddyn 1

**Asiant Creadigol:**
Sandra Harnisch-Lacey
**Ymarferwyr Creadigol:**
Tamar Williams – storïwr,
Sandra Gustafsson – dyluniwr a chrëwr perfformiadau

**Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu**

## Ysgol Gynradd Wirfoddol a Gynorthwyir Madras

# Sut gall animeiddio godi lefelau cyrhaeddiad gan ddefnyddio dulliau trawsgwricwlaidd?

Prif nod y prosiect oedd codi safonau llythrennedd disgyblion Blwyddyn 2. Ategwyd hyn trwy ddefnyddio Dreigiau a Chestyll fel thema graidd i'r prosiect, a thrwy hynny cawsant eu sbarduno i ddefnyddio eu dychymyg i lunio straeon, a'u chwilfrydedd i archwilio ac ymchwilio ymhellach i'r thema. Creodd y disgyblion ffilm animeiddiedig a oedd yn dangos eu proses o ddarganfod trwy gelf, adrodd straeon, cerddoriaeth a sawl agwedd ar sgiliau TGCh, a gafodd oll eu creu mewn cydweithrediad â'i gilydd.

Rhoddwyd perchnogaeth a chyfrifoldeb dros y prosiect yn nwylo'r disgyblion i raddau helaeth. O ganlyniad, gwelwyd cynnydd clir yn hyder disgyblion Blwyddyn 2, ac maent wedi dewis defnyddio animeiddio fel cyfrwng wrth ddysgu'n annibynnol, gan weithio mewn grwpiau, sydd wedi eu galluogi i archwilio ac arbrofi ymhellach gyda'u creadigrwydd.







21 o ddysgwyr Blwyddyn 2

**Asiant Creadigol:** Carole Trenaman
**Ymarferwyr Creadigol:**
Jenny Berrisford, George Beasley

Celfyddydau Mynegiannol | Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu | Cymhwysedd Digidol

Ysgol Gynradd Mount Stuart

# Sut gall ymgysylltiad llawn dychymyg mewn gweithgareddau ymarferol wella sgiliau rhifedd a rhesymu plant Blwyddyn 4?

Gwelodd y prosiect yma'r athro dosbarth, yr Ymarferydd Creadigol a'r dysgwyr yn archwilio strategaethau dychmygus i gymhwyso sgiliau rhifedd mewn gwahanol gyd-destunau, gyda phwyslais penodol ar le a mesur.

Mae'r sesiynau wedi galluogi'r dysgwyr i ddatblygu dulliau effeithiol a hwyliog o fynd ati i ddatrys problemau gyda'i gilydd, gan feithrin eu hyder a'u sgiliau cydweithio. Roedd y sesiynau'n cynnwys llunio a chreu adnoddau a syniadau newydd y gellir eu rhannu ar draws yr ysgol, fel 'Pecyn Maths Hud' a 'Ras Maths' cludadwy.

30 o ddysgwyr Blwyddyn 4

**Asiant Creadigol:** Heather Parnell
**Ymarferydd Creadigol:**
Louise Shenstone

Mathemateg a Rhifedd

## Ysgol Gyfun Aberpennar

**A all prosiect creadigol trawsgwricwlaidd feithrin hyder, creadigrwydd a lles dysgwyr, effeithio ar y bwlch rhwng y rhywiau a galluogi athrawon i ddatblygu sgiliau y gellid eu defnyddio i ddarparu'r Fframwaith Cymhwysedd Digidol?**

Dros gwrs 10 wythnos, bu'r disgyblion yn cydweithio â'u hathrawon Celfyddydau Mynegiannol a'r Ymarferwyr Creadigol i gynhyrchu opera sebon mewn dwy ran. Trwy weithgareddau byrfyfyr a datblygu sgript, llwyddodd y dysgwyr i ddod o hyd i syniadau newydd, a chreu cymeriadau a senarios. Ar ôl dyfeisio stori, aeth y disgyblion ati i edrych ar dechnegau creu ffilmiau ymarferol, creu rhestrau o ddisgrifiadau ar gyfer y gwaith saethu, byrddau stori, chwilio am leoliadau ffilmio, ac ymchwilio i benderfynu ar wisgoedd a cholur. Ar ôl yr holl waith cynllunio, buont wrthi'n ffilmio am 3 diwrnod. Gan weithio gyda'u Hymarferydd Creadigol cerddorol, creodd y disgyblion effeithiau sain a cherddoriaeth thema ar gyfer eu hopera sebon, gan ystyried genres addas ar gyfer cerddoriaeth achlysurol. Rhoddodd y sesiynau celf gyfle i'r dysgwyr greu a thrin delweddau digidol gan ddefnyddio meddalwedd/apiau i greu delweddau perthnasol ar gyfer y teitlau a golygfeydd cychwynnol ar gyfer y ffilm. Daeth y broses i ben ag ymweliad â stiwdio trosleisio broffesiynol lle buon nhw'n gweithio gyda chymysgwr sain i osod eu trac sain ar y ffilm derfynol wedi ei golygu. Cafodd y gwaith ei rannu a'i ddathlu gyda noson sgrinio carped coch, ynghyd ag arddangosfa am y broses, mewn sinema annibynnol yng Nghaerdydd

Dangosodd asesiad ar ddiwedd y broses bod 86% o'r disgyblion wedi gwneud cynnydd rhagorol yn eu sgiliau llafaredd o fewn amserlen y prosiect.

---

21 o ddysgwyr Blwyddyn 8


**Asiant Creadigol:** Matt Beere
**Ymarferwyr Creadigol:** Tracy Pallant, Amy Peckham, Alex Rees, Casey Raymond

Celfyddydau Mynegiannol

Cymhwysedd Digidol

### Ysgol Trecelyn

# A all dull gweithredu creadigol gael effaith gadarnhaol ar lefelau hyder a chyrhaeddiad disgyblion Blwyddyn 10 ym maes llafaredd?





Ar gyfer 'Ffeindio'ch Llais' bu'r dysgwyr yn gweithio gyda pherson proffesiynol o'r byd drama i archwilio dulliau newydd ac arloesol o ddatblygu eu sgiliau llafaredd a'u hyder. Gan ddefnyddio amrywiaeth eang o dechnegau perfformio, gan gynnwys comedi stand yp, siarad cyhoeddus a chwarae rôl, archwiliodd y disgyblion ffyrdd o wella eu harferion llafaredd wrth baratoi ar gyfer asesiad TGAU. Nodwyd effaith sylweddol ar y dysgwyr, gan gynnwys gwelliannau yn eu hyder a'u sgiliau, ond hefyd wrth iddynt ymgyfarwyddo â'u dewisiadau a'u harddulliau dysgu eu hunain. Cynhyrchwyd ffilm i ddangos yr effaith ar y dysgwyr, ac mae staff addysgu'n ei defnyddio fel offeryn dysgu wrth baratoi ar gyfer asesiadau llafaredd CA4.

---

210 o ddysgwr Blwyddyn 10

**Asiant Creadigol:** Dafydd Emyr
**Ymarferydd Creadigol:** Darius Nash

**Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu**

Ysgol Gynradd Pentrepoeth

## A all defnyddio dulliau creadigol i gymeriadu treftadaeth ac arwyr byd rygbi Cymru wella deilliannau mewn llythrennedd Cymraeg, ac yn enwedig llafaredd?

Bu'r dysgwyr yn gweithio gyda storïwr a datblygwyr apiau i ymchwilio i'r broses o ddatblygu cymeriadau i'w defnyddio mewn cyd-destunau digidol a theatraidd. Mater o ddiddordeb penodol oedd sut y bu'r gwahanol ddisgyblaethau'n ddefnyddiol ac yn gynhwysol ar gyfer amrywiaeth o ddulliau dysgu. Trwy ganolbwyntio ar y broses, mae rhai o'r 'artistiaid' mwy hwyrfrydig wedi sylweddoli bod adrodd stori a dangos nodweddion yn bwysicach na phoeni am ansawdd canfyddedig neu deilyngdod artistig. Yn ogystal â gwella llafaredd yn Gymraeg, datblygodd y prosiect yma gymhwysedd digidol gan dargedu lleihau effaith amddifadedd ar gyrhaeddiad addysgol.

60 o ddysgwyr Blwyddyn 5

**Asiant Creadigol:** Karen Dell' Armi
**Ymarferwyr Creadigol:**
Tamar Williams – storïwr,
Martin Jones ac Ann Roberts
(Value Added Education)

Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu

Cymhwysedd Digidol

## Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Rhaeadr Gwy

# A all ymchwilio dan arweiniad y disgyblion greu gwell deilliannau dysgu?

Bu dosbarthiadau CA2 yn gweithio gydag ymarferydd awyr agored i ddatblygu ardaloedd dysgu â ffocws ar fathemateg ar dir yr ysgol, a bu'r ymgynghorydd creadigol yn gweithio gydag athrawon ar draws yr ysgol gyfan i feithrin eu hyder mewn cynllunio dan arweiniad y disgybl. Nod y prosiect yma oedd datblygu greddf naturiol y plant i ddysgu, a chynorthwyo'r oedolion i ategu dysgu'r plant trwy wneud eu prosesau a'u harferion dysgu'n fwy tryloyw. Bu ffocws cadarn ar ddatblygu staff o'r cychwyn cyntaf, ac mae hyn wedi rhoi cyfleoedd creadigol i'r staff baratoi ar gyfer y cwricwlwm newydd. Mae'r athrawon wedi cael eu cymell a'u cyffroi gan addysgu mewn ffordd fwy creadigol dan arweiniad y disgyblion, ac mae cymhelliant y plant yn gryfach am eu bod yn chwarae mwy o ran wrth gynllunio a dewis cynnwys eu dysg.



Holl ddysgwyr y Cyfnod Sylfaen a CA2 (167 disgybl)

**Asiant Creadigol:** Rosie Mc Connell
**Ymarferwyr Creadigol:**
Greg Vearey-Roberts, Jenny Dingle

Mathemateg a Rhifedd

Ysgol Gynradd Rhisga

## A all defnyddio dull creadigol o edrych ar ein pwnc astudio - Faciwîs yn ystod yr Ail Ryfel Byd - wella sgiliau llefaredd a chymhwysedd digidol grŵp o ddisgyblion gallu cymysg ym Mlwyddyn 5?

Ffilm animeiddiedig yw *Vaccies* ac fe'i cynhyrchwyd gan ddysgwyr Blwyddyn 5 yn Ysgol Gynradd Rhisga yn rhan o brosiect i ddatblygu sgiliau llythrennedd, llafaredd a chymhwysedd digidol. Yn ogystal, bu'r disgyblion yn edrych ar hanes eu hardal leol, a datblygwyd y ffilm ar sail trawsgrifiadau uniongyrchol o atgofion faciwîs fu'n byw yng Nghasnewydd yn ystod yr Ail Ryfel Byd.

Yn ogystal â datblygiad sylweddol y disgyblion ym maes llafaredd a chymhwysedd digidol, llwyddwyd i wella lles y dysgwyr a'u hagweddau at ddysgu trwy'r prosiect hefyd.





55 o ddysgwyr Blwyddyn 5

**Asiant Creadigol:** Lucy Thomas
**Ymarferwyr Creadigol:**
Nigel Crowle, Glen Biseker
(Winding Snake Productions)

Dyniaethau

Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu

Cymhwysedd Digidol

Ysgol Gynradd Severn

## Sut gall ymgysylltiad dychmygus wrth chwarae rôl mewn grwpiau wella llafaredd ac ysgrifennu creadigol disgyblion Blwyddyn 2?

Trwy weithdai syrcas, aeth y dysgwyr trwy broses i wella eu sgiliau llafaredd. At hynny, datblygwyd meysydd o 5 Arfer Creadigol y Meddwl, fel cydweithio a dyfalbarhad, wrth i'r disgyblion ddyfeisio eu triciau syrcas eu hunain gydag aelodau eraill o'r dosbarth. Yn eu tro, ysgrifennodd y disgyblion gyfarwyddiadau ar gyfer eu triciau eu hunain. Defnyddiwyd y cyfarwyddiadau hyn fel mecanwaith i addysgu'r holl athrawon mewn sesiwn HMS i staff.

Mae lefelau ymgysylltiad a hyder wedi cynyddu'n sylweddol. Mae'r dysgwyr wedi dysgu sut i weithio fel tîm ac wedi datblygu strategaethau ar gyfer cydweithio. Yn ogystal, creodd y disgyblion 'arch arwyr' Arferion Creadigol y Meddwl yn sgil y prosiect - sef Persistent Penny, Inquisitive Ian, Disciplined Dan, The Caped Collaborator ac Imaginative Iris. Cyfeirir at yr arch arwyr hyn yn gyson, ac maent yn cael eu clustnodi yn y gwahanol feysydd dysgu yn yr ystafell ddosbarth ac ar draws amgylchedd dysgu'r ysgol.

29 o ddysgwyr Blwyddyn 2

**Asiant Creadigol:** Heather Parnell
**Ymarferydd Creadigol:**
Beth Caudle – ymarferydd drama

Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu

## Ysgol Gynradd Somerton

# A allwn ni feithrin mwynhad mewn dysgu a chodi safonau ysgrifennu, llafaredd a'r fframwaith digidol trwy ymchwilio i drosedd a'i datrys?



Bu'r disgyblion yn gweithio i wella eu sgiliau hysgrifennu, llafaredd a chymhwysedd digidol trwy gyfres o weithdai drama a gweithgareddau ar sail troseddau. Cyflawnodd y dysgwyr waith olion bysedd, creu DNA, archwilio safle'r drosedd, creu ffug-newyddion, ynghyd â gemau dysgu creadigol i roi hwb i'w hunanhyder a hybu ysbryd y tîm.

Cyfrannodd y prosiect at welliant sylweddol yn lefelau presenoldeb y disgyblion, gostyngiad mewn hwyrni, gwell ymddygiad, a gwell cyrhaeddiad, gyda lefelau Saesneg y disgyblion yn dangos datblygiad clir. Gwelwyd gwelliannau hefyd yn niddordeb a dealltwriaeth y disgyblion o ran gwaith heddlu, a oedd yn ddeilliant anfwriadol o'r prosiect.


30 o ddysgwyr Blwyddyn 4 a 5

**Asiant Creadigol:** Amy Doughty
**Ymarferwyr Creadigol:**
Gemma Walsh, Stuart Ball

Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu

Gwyddoniaeth a Thechnoleg

Cymhwysedd Digidol



# Archwilio effaith ein hamgylchedd ar ein ffordd o ddysgu

Archwilio sut mae ein hamgylchedd yn effeithio ar ein ffordd o ddysgu yw nod ein prosiectau Cynllun Ysgolion Creadigol Arweiniol. Yn ystod y flwyddyn gyntaf, bu'r ymarferydd yn canolbwyntio ar ardaloedd awyr agored yr ysgol, gan adeiladu drysfeydd, cuddfannau, llwybrau ac yn y pendraw dyfeisio 'ynysoedd' i weld sut mae newidiadau yn ein hamgylchedd yn newid ymatebion y disgyblion. Cymerodd y disgyblion ran mewn ymchwiliadau amrywiol ac ymarferol trwy gynnal dialog parhaus am sut maen nhw'n teimlo, yn symud ac yn canolbwyntio wrth ddysgu. Ar hyn o bryd, mae'r staff a'r disgyblion yn cydweithio â Craig Thomas a thri myfyriwr o Adran Dylunio Mewnol Met Caerdydd. Maen nhw'n archwilio golau, maint, lliw a 'pharthau', ac wrth gyflawni ymchwiliadau ymarferol o'r ystafell ddosbarth, mae'r disgyblion yn defnyddio'r fathemateg y maent wedi ei ddysgu yn ystod yr wythnos yn ymarferol i fesur, pennu graddfa ac ail-ddylunio'r ystafell.

---

29 o ddysgwyr Blwyddyn 4 a 5

**Asiant Creadigol:** Lizzy Stonhold
**Ymarferwyr Creadigol:**
Blwyddyn 1 – Greg White.
Blwyddyn 2 – Craig Thomas a myfyrwyr dylunio mewnol Prifysgol Metropolitan Caerdydd

Mathemateg a Rhifedd

## Ysgol Gynradd Springwood ac Ysgol Gynradd Parc y Rhath

# Gofalwyr y Dyfodol: archwilio sut y gellir datblygu sgiliau llythrennedd dysgwyr Blwyddyn 4



Mae'r prosiect wedi gweld dysgwyr o'r ddwy ysgol yn datblygu eu sgiliau llythrennedd trwy ystyried sut olwg a allai fod ar y byd (a nhw) yn y dyfodol. Trwy negeseuon e-bost a recordiadau fideo, bu modd i'r dysgwyr gyfathrebu â 'Herman' - dyn o 70 mlynedd i'r dyfodol, er mwyn gweld sut 'olwg' sydd ar Barc y Rhath. Dywedodd Herman wrth y dysgwyr nad oes unrhyw goed yn y parc mwyach, a bod yr adar/anifeiliaid wedi darfod. Gyda'r wybodaeth yma, bu modd i'r dysgwyr fynd ati i archwilio ac ymchwilio pa gamau y gallent eu cymryd i geisio newid y senario.

Pen-draw'r prosiect oedd plannu capsiwl amser, wedi ei guradu gan y dysgwyr, ym Mharc y Rhath, a'r sgwrs FaceTime gyntaf erioed gyda'r dyfodol. Ysgrifennodd y dysgwyr negeseuon ar gardiau i helpu pobl y dyfodol i ddysgu sut i fod yn garedig wrth bobl eraill a gwneud ffrindiau, ac fe ysgrifennon nhw lythyrau at eu hunain yn y dyfodol.

90 o ddysgwyr Blwyddyn 4

**Asiant Creadigol:** Jên Angharad
**Ymarferwyr Creadigol:**
Georgina Harris, Justin Cliffe, Roberta Harris

Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu

## Ysgol Sant Christopher

### Sut gall prosesau digidol a chreadigol wella cyfranogiad disgyblion a datblygu ei sgiliau llythrennedd a rhifedd?

Mae'r prosiect sydd ar droed yn yr ysgol yn seiliedig ar friff tebyg i'r 'Apprentice' ac mae'n cael ei gyflunio'n barhaus gan y disgyblion wrth iddynt rannu eu syniadau. Hyd yn hyn, mae'r athro a'r ymarferwyr wedi bod yn gweithio gyda'r dysgwyr i gyflawni gwaith ymchwil i'r farchnad, cynllunio cynhyrchion, creu prototeipiau, a llunio rapiau, barddoniaeth a rhigymau. Mae'r gwaith yn cael ei gymysgu â gweithgareddau sy'n cael eu teilwra'n arbennig i ddatblygu sgiliau cydweithredu a chymdeithasol y disgyblion a'u lles emosiynol.


13 o ddysgwr Blwyddyn 10
**Asiant Creadigol:** Delyth Harries
**Ymarferwyr Creadigol:** Martin Daws, Ben Davies a Jude Wood

Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu

Gwyddoniaeth a Thechnoleg

## Ysgol Gynradd Gatholig Dewi Sant

### A all prosiect teithio cynaliadwy ar sail animeiddio gael effaith gadarnhaol ar lafaredd ym Mlwyddyn 5?



Mae'r disgyblion wedi bod yn gweithio i wella eu sgiliau llafaredd a'u  cymhwysedd digidol trwy animeiddio. Mae'r prosiect, sy'n edrych ar thema teithio cynaliadwy, wedi bod yn gysylltiedig â SUSTRANS. Mae'r dysgwyr wedi bod wrthi'n archwilio offer animeiddio, creu eu hanimeiddiadau eu hunain, dysgu am adrodd straeon ac ysgrifennu eu straeon eu hunain. O ganlyniad i'r prosiect, disgwylir i'r disgyblion fodloni neu ragori ar eu targedau diwedd blwyddyn ar hyn o bryd.

31 o ddysgwyr Blwyddyn 5
**Asiant Creadigol:** Richard Parry
**Ymarferydd Creadigol:** Tom Margett

Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu

Cymhwysedd Digidol

## Ysgol Gynradd Eglwys Gadeiriol San Joseff

**Mae disgyblion dosbarth Ysgol Gynradd Eglwys Gadeiriol San Joseff wedi bod ar daith greadigol sy'n dod a'r cwricwlwm yn fyw trwy ddylunio, adeiladu a gwneud.**

Canolbwyntiodd yr ysgol ar y setlo o fewnfudwyr Gwyddelig yn y 1850au. Mae'r stori yn un o amddifadedd mawr ac anobaith, o ffydd a chymuned a gobaith ac addysg. Dros gyfnod o 7 wythnos mae disgyblion, staff ac ymarferwyr creadigol wedi archwilio'r etifeddiaeth hyn trwy sbectrwm eang oarferion a phrosesau. O ffilm, i greu plastr i bapur, profodd y disgyblion llwybrau 2 a 3 dimensiwn i ddadbacio'r stori ddynol hon o ddygnwch ac ymdrech. Fe wnaethant gyrchu'r cwricwlwm hanes a chrefydd mewn ffordd fwy deinamig a chofiadwy na llwybrau academaidd traddodiadol: cysylltu dysgu a sefyllfaoedd anghyfarwydd a mwy haniaethol.

30 o ddysgwyr Blwyddyn 5

**Asiant Creadigol:** Sarah Jones
**Ymarferwyr Creadigol:**
Bill Taylor-Beales
a Mandy Lane

**Dyniaethau**

## Ysgol Gynradd Gatholig y Santes Fair

## Cas-gwent: Pontio i'n dyfodol

Prosiect a ddyluniwyd i ymbweru'r dysgwyr i fod yn fwy mentrus a dychmygus yn eu defnydd o lythrennedd, rhifedd a TGCh oedd *'Cas-gwent: Pontio i'n dyfodol'.* Aeth y disgyblion ati i ddylunio, ysgrifennu, ffilmio a chynhyrchu eu ffilm fer eu hunain sy'n edrych ar bwysigrwydd eu hardal leol a phwys Cas-gwent i Gymru.

Datblygodd y prosiect ddyheadau'r disgyblion ar gyfer eu dyfodol, eu dealltwriaeth o'i gilydd, eu sgiliau cymdeithasol gydag oedolion a'u cyfoedion, a'u dealltwriaeth am bwysigrwydd addysg.

60 o ddysgwyr Blwyddyn 5 a 6

**Asiant Creadigol:** Jenny Hulme
**Ymarferydd Creadigol:**
Owain Hopkins (Tree Top Films)

**Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu**

**Cymhwysedd Digidol**

## Ysgol Gynradd Gatholig y Santes Margaret

### A allwn ddefnyddio cerddoriaeth i wella sgiliau rhifedd a magu gwytnwch ac ymgysylltiad ein dosbarth Blwyddyn 5/6?

Defnyddiwyd amrywiaeth eang o arddulliau a genres cerddorol fel offeryn i helpu'r dysgwyr i ddatblygu, gwella a chofio eu tablau lluosi. Ar ôl creu cerddoriaeth, cyfansoddi caneuon, creu ffilm a dysgu'r tablau, creodd y disgyblion eu sianel YouTube eu hunain i'w galluogi i ddarlledu eu fideos cerddorol newydd.

Gwelwyd newid mawr yn agwedd y disgyblion, ac roedd agwedd gadarnhaol a brwdfrydedd y disgyblion yn amlwg ar ddiwedd y prosiect. Mae llawer o'r plant wedi sylweddoli eu bod nhw'n hoffi mathemateg, a'u bod nhw'n gallu canu a/neu ddawnsio.

26 o ddysgwyr Blwyddyn 5 a 6

**Asiant Creadigol:** Rebecca Lloyd James
**Ymarferwyr Creadigol:**
Bill Taylor-Beales,
Hushland Creative

Mathemateg a Rhifedd

## Ysgol Gynradd Sant Woolos

### Gwella sgiliau ysgrifennu bechgyn Blwyddyn 1

Defnyddiodd y dysgwyr ffilm a pherfformio i archwilio dysgu y tu hwnt i amgylchedd arferol yr ystafell ddosbarth, a thrwy hynny gwelwyd eu hyder, eu dyfalbarhad a'u meddwl creadigol yn ehangu. Creodd y disgyblion 'Hungry Heroes' sef bwyty bwydydd iach dros dro, ac aethant ati i'w farchnata'n lleol er mwyn denu ymgysylltiad a chefnogaeth y rhieni a'r gymuned. Cododd y prosiect safonau a chyrhaeddiad ym mhob agwedd ar lythrennedd: llafaredd, ysgrifennu a darllen. Roedd y Saesneg yn iaith ychwanegol i 42 o'r disgyblion: a bu natur weledol y gweithgareddau'n fodd o oresgyn y rhwystrau ieithyddol rhwng y cyfranogwyr.

87 o ddysgwyr Cyfnod Allweddol 1

**Asiant Creadigol:** Ceri Davies
**Ymarferwyr Creadigol:** It's My Shout

Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu

### Ysgol Gynradd Sully

## Sut y gellir defnyddio amgylchedd i ddatblygu sgiliau llythrennedd dysgwyr Mwy Abl a Thalentog?

Ar ôl cymryd rhan yn y Cynllun Ysgolion Creadigol Arweiniol a chyflwyno prosiect cymorth ysgol-i-ysgol, mae athrawon yn Ysgol Gynradd Sully wedi parhau i archwilio sut y gallant ddefnyddio addysgeg y Cynllun Ysgolion Creadigol Arweiniol i rannu'r ymagwedd ymhellach ar draws eu clwstwr. Yn y prosiect hwn, mae dysgwyr Mwy Abl a Thalentog o sawl ysgol wedi dod at ei gilydd i weithio gyda darlunydd er mwyn archwilio Bae Caerdydd a datblygu eu sgiliau llythrennedd trwy greu barddoniaeth a ysbrydolwyd gan eu hamgylchedd.

**Asiant Creadigol:** Louise Osborn
**Ymarferwyr Creadigol:**
Anwen Carlisle a Joseph Ollman

**Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu**

### Ysgol Gynradd West Park

## 'Nid Siocled yw Disgyrchiant' – a all cydweithio i gynhyrchu ffilm fer annog dysgwyr y Cyfnod Sylfaen i ddysgu'n annibynnol a gwella'u cyrhaeddiad tymor hir yn y pynciau craidd?

25 o ddysgwyr Blwyddyn 3

**Asiant Creadigol:** Hannah Noone
**Ymarferwyr Creadigol:**
Natasha James a Mike Church

Dewisodd y dysgwyr gynhyrchu ffilm ar thema'r 'Gofod' ac aethant ati i ysgrifennu sgriptiau a datblygu eu sgiliau actio drwy weithdai drama. Roedd y grŵp hwn o ddysgwyr a oedd mewn cyfnod pontio yn tangyflawni mewn iaith, llythrennedd a chyfathrebu, datblygiad mathemategol a datblygiad personol a chymdeithasol. Mae gwerthusiad wedi dangos tystiolaeth o gynnydd yn eu lles emosiynol a thwf personol.

**Gwyddoniaeth a Thechnoleg**

**Cymhwysedd Digidol**

## Ysgol Gymunedol Twyn-yr-odyn

### A all agwedd greadigol at lythrennedd effeithio ar ganlyniadau cyrhaeddiad dosbarth gallu cymysg o ddisgyblion Blwyddyn 2?

Trwy edrych ar lythrennedd trwy lygaid creadigol, nod y prosiect oedd defnyddio testunau ysgogol i sbarduno dychymyg y plant. Defnyddiwyd gemau geiriau, chwarae rôl, llwybrau dychymyg a gemau drama fel ffordd o ddeffro cariad at ddarllen a llythrennedd. Bu'r dysgwyr yn gweithio gyda'u hathro a'r Ymarferydd Creadigol i greu llwybr stori awyr agored ar dir yr ysgol, a lansio blodeugerdd o waith.

Yn sgil y prosiect, roedd y disgyblion yn mwynhau darllen yn fwy, ac yn dyfalbarhau'n well pan oedd darllen yn anodd. Mae dysgwyr wedi magu hyder trwy gyfleoedd i chwarae rôl ac adrodd straeon. Mae hyn, yn ei dro, wedi arwain at welliannau yn eu sgiliau llafaredd.

30 o ddysgwyr Blwyddyn 2

**Asiant Creadigol:** Jos Andrews
**Ymarferydd Creadigol:**
Susan Monkton

**Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu**

## Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Brynbuga ac Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Charles Williams

### Datblygu llythrennedd ffisegol dysgwyr ynghyd â'u gwaith ysgrifennu creadigol mewn cyd-destun amgylcheddol.

Blwyddyn 5 a 6

**Asiant Creadigol:** Sarah Goodey
**Ymarferydd Creadigol:** Daniel Ovel (Dirty Feet Dance)

**Celfyddydau Mynegiannol**   **Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu**

Trwy weithio gydag arbenigydd parkour, bu modd i ryw 60 o ddisgyblion o'r ddwy ysgol gynhyrchu naratif o safon uchel yng nghyd-destun 'Y Cefnfor Plastig' a 'Datgoedwigo'. Aethant ati wedyn i ail-greu'r naratif gan ddefnyddio coreograffi a oedd yn cynnwys gymnasteg, llofneidio, brecddawnsio a dull rhydd. Cafodd ffrwyth y gwaith ei droi'n ffilm hefyd. Yn ogystal â gwella sgiliau corfforol a hyder y disgyblion, bu gweithio mewn tîm a dulliau arloesol o gydweithio'n nodweddion allweddol o'r gwaith, yn ogystal â dyfalbarhau a'ch ymestyn eich hun y tu hwnt i'r cyffredin.

## Ysgol Bro Dinefwr

### A all agwedd greadigol at ddefnyddio'r cyfryngau digidol, mewn ymateb i anghenion cymuned yr ysgol a'r amgylchedd, godi hyder y disgyblion a'u defnydd o'r cyfryngau digidol mewn perthynas â'r Fframwaith Cymhwysedd Digidol?

15 o ddysgwyr Blwyddyn 8

**Asiant Creadigol:** Sarah Pace
**Ymarferwyr Creadigol:**
Pyka (www.wearepyka.com)

Gosodwaith yw 'Drychau Hud' sy'n codi'r cwestiynau 'mawr' gyda'r bwriad o beri i'r bobl sy'n eu darllen wrth fynd heibio aros a meddwl. Nod cwestiynau fel 'Os ddweda'i wrthot ti fy mod i'n mynd i ddwyn dy ysgrifbin, ai dwyn yw hynny o hyd?' yw dechrau sgwrs a gwneud i'r gynulleidfa feddwl. Mae'r drych yn annog y rhai sy'n edrych i weld eu hymateb eu hunain, ac ystyried hynny hefyd. Llwyddodd y dysgwyr o dan sylw i wella eu sgiliau codio a'u gallu i ddatrys problemau a rheoli prosiectau hefyd.

**Cymhwysedd Digidol**

## Ysgol Bodhyfryd



Roedd y prosiect diweddar yn troi o gylch y llyfr Stryd y Rhifau. Cafodd y disgyblion gyfle i archwilio gwahanol agweddau ar rifedd, ac yn enwedig iaith rifedd.

Diolch i gydweithredu cadarn rhwng y staff a'r ymarferwyr creadigol, archwiliodd y disgyblion siapau, rhifau a graffiau trwy ailgylchu hen ddodrefn a deunyddiau eraill, datblygu sied rhifedd, peintio a cherflunio, stensilio a chanu. Cafodd y gwaith ei arddangos ar dir yr ysgol fel y gallai'r holl ddisgyblion a chymuned ehangach yr ysgol fanteisio arno. Cafodd creadigrwydd y disgyblion ei ddatblygu o fewn, a'r tu hwnt i'r prosiect, wrth i'r staff barhau i archwilio syniadau newydd.

**A all cydweithio ag ymarferwyr creadigol ar brosiect mathemateg trwy gyfrwng y Gymraeg ddylanwadu ar iaith fathemategol disgyblion dosbarth derbyn a'i datblygu? Trwy ymchwilio a darganfod dulliau newydd, rydym am greu adnodd i rannu beth rydyn ni wedi ei ddysgu â gweddill yr ysgol.**

60 o ddysgwyr Dosbarth Derbyn

**Asiant Creadigol:** Iwan Williams
**Ymarferwyr Creadigol:**
Catrin Williams a Mike Murray

Celfyddydau Mynegiannol

Mathemateg a Rhifedd

## Ysgol Bwlchgwyn

**Sut gall defnydd creadigol o dechnolegau digidol a chreu ffilmiau ddatblygu sgiliau rhifedd ynghyd ag arferion cydweithio, dyfalbarhad a disgyblaeth?**

27 o ddysgwyr Blwyddyn 5 a 6

**Asiant Creadigol:** Jan Davies
**Ymarferydd Creadigol:** Jim Elliott

☑ **Dyniaethau** ☑ **Mathemateg a Rhifedd** ☑ **Cymhwysedd Digidol**

Nod y prosiect cyfredol yma yw defnyddio rhifedd mewn cyd-destun pwrpasol a dod â straeon lleol am y Rhyfel Byd Cyntaf yn fyw trwy ffilm ac animeiddio. Trwy ystyried fframiau fesul eiliad, cymhareb y sgrin a chyfrifo'n barhaus, mae'r disgyblion yn magu llawer o hyder wrth ddefnyddio mathemateg. Mae'r dysgwyr wedi bod yn gweithio y tu allan i'w grwpiau cyfeillgarwch uniongyrchol hefyd, ac maent wedi dweud bod hynny wedi bod yn beth defnyddiol o ran rhoi adborth i'w gilydd a gwella ansawdd y gwaith sy'n cael ei gynhyrchu.

## Ysgol Crug Glas ac Uned Addysgu Arbennig Ysgol Gyfun Treforys

**A allwn ni danio diddordeb amrywiaeth o ddysgwyr trwy greu gwe seiniau a golau sy'n cael ei sbarduno gan symud, a'i modelu gan y glust, y llygad a'r llaw?**

Grŵp cymysg o ddysgwyr o'r ddwy ysgol

**Asiant Creadigol:** Arwen Roberts
**Ymarferwyr Creadigol:** Luke Turner, Dave Bairn, Tom Newell, Jordan Martin

☑ **Celfyddydau Mynegiannol**

Ffilm animeiddio yw *'Do not go gently into that good night'* sydd wedi cael ei chynhyrchu gan ddisgyblion mewn cydweithrediad â phedwar artist: darlunydd, cerddor a dylunwyr fideo. Ffrwyth prosiect amlsynhwyraidd yw'r ffilm animeiddio, lle mae'r disgyblion yn defnyddio eu cyrff i greu achos ac effaith. Ymroddodd y disgyblion i'r cyfleoedd creadigol a chymdeithasol llawn dychymyg a gynigiwyd trwy'r prosiect, a bu modd iddynt oresgyn llawer o'r sialensiau corfforol a chymdeithasol sy'n eu hwynebu o ddydd i ddydd.



## Gwella sgiliau llythrennedd disgyblion CA2 yn Gymraeg wrth drafod themâu amgylcheddol/eco’

Yr ysgol gyfan – 97 disgybl

**Asiant Creadigol:** Siw Jones
**Ymarferwyr Creadigol:** CISP Multimedia

Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu

Cymhwysedd Digidol

Archwiliodd y disgyblion sut i fynd ati i gyfuno cerddoriaeth, dylunio graffeg a ffilm i greu iaith weledol i ategu pwnc yn hytrach na’u bod yn gweithredu fel gwahanol ffurfiau ar gelfyddyd. Y nod oedd gwella llythrennedd a chynyddu defnydd disgyblion CA2 o’r Gymraeg, a hynny wrth godi ymwybyddiaeth am faterion amgylcheddol. Chwaraeodd y disgyblion rhan greadigol lawn yn y broses gynhyrchu gyfan wrth greu ffilmiau, cartwnau digidol, darluniau a phosau, ysgrifennu geiriau, recordio sain, cyfansoddi cerddoriaeth ac arbrofi â rhythm. Cafodd sut y gellir defnyddio’r Gymraeg mewn amrywiaeth o ffyrdd ei ategu gan y prosiect hefyd, wrth i’r disgyblion ddysgu ymadroddion am ddylunio digidol, creu ffilmiau a chyfansoddi.

Ysgol Gwaun Gynfi

## A oes modd datblygu sgiliau cyd-drefnu a datrys problemau, a chodi safonau rhifedd a gwyddoniaeth Blwyddyn 5 a 6 trwy ddefnyddio posau, gemau creadigol ac adnoddau celf?



28 o ddisgyblion Blwyddyn 5 a 6

**Asiant Creadigol:**
Rebecca Hardy-Griffith
**Ymarferwyr Creadigol:**
Gwion Aled a Mike Murray

“Mae mwy i ddysgu na phen a phapur”

Datblygodd y prosiect sgiliau gwyddoniaeth a mathemateg y disgyblion trwy ddulliau ymarferol dan arweiniad y disgyblion. Gwelodd y prosiect ddatblygiadau o fewn y rhaglenni astudio yma, a hyder y dysgwyr yn tyfu wrth iddynt fentro a rhoi cynnig ar bethau newydd. Ymysg y pethau a wnaed roedd: arbrofi â llysnafedd magnetig, creu ewyn, gweithio gyda solidau, cyfaint a strwythurau. Parhaodd y disgyblion i ddysgu’n annibynnol gartref hefyd trwy wylio arbrofion ar YouTube a dysgu am wyddonwyr fel Stephen Hawkins. Manteisiodd yr athro a’r ymarferydd creadigol ar y chwilfrydedd yma trwy gyflawni gwaith ar sail diddordebau’r disgyblion yn y dosbarth.

Gwyddoniaeth a Thechnoleg

## Ysgol Gyfun Cwm Rhymni

### Sut y gallwn wella dealltwriaeth am bwnc cymhleth a datblygu sgiliau i gofio cysyniadau gwyddonol?

6 o ddysgwyr CA3

**Asiant Creadigol:** Ceri Davies
**Ymarferwyr Creadigol:** Arwel Jones, Wild Creations, Real SFX a Fake FM

Iechyd a Lles

Gwyddoniaeth a Thechnoleg

Cafodd grŵp o ddysgwyr y sialens o feddwl am ffordd chwareus o ddysgu am y system dreulio. Ar ôl mynd i ddau weithdy dylunio technegol creadigol ac effeithiau arbennig, cafodd y dysgwyr eu hysbrydoli i ddylunio, adeiladu a ffilmio cefndiroedd, effeithiau arbennig a phropiau ar gyfer model tri-dimensiwn o'r system dreulio. Cyn y prosiect, nid oedd 80% o'r dysgwyr yn cyrraedd safon y Fframwaith Llythrennedd/ Rhifedd ym mhob maes. Ar ôl y prosiect, roedd 80% o'r dysgwyr yn dangos elfennau mwy cywir nag elfennau anghywir o dan y Fframwaith, ac roedd 40% yn cyrraedd safon y Fframwaith mewn rhai meysydd. Gwelwyd gwelliant mewn cyfraddau presenoldeb 80% o'r dysgwyr yn ystod y prosiect hefyd.

## Ysgol Gymraeg Casnewydd

### Creu yn y Cwtsh

11 o ddysgwyr Blwyddyn 3-6

**Asiant Creadigol:** Ceri Davies
**Ymarferwyr Creadigol:**
Rhodri Harries, Aron Evans

Cymhwysedd Digidol

Iechyd a Lles

Mae'r disgyblion wedi bod yn gweithio i greu cerddoriaeth ac animeiddiadau i feithrin eu hyder, eu hunanddisgyblaeth a'u sgiliau canolbwyntio. Grŵp o ddysgwyr a oedd yn defnyddio gofod y 'Cwtsh' fu'n cymryd rhan yn y prosiect. Dyluniwyd y prosiect i helpu'r disgyblion i deimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi wrth iddynt ddilyn eu diddordebau unigol er mwyn creu cerddoriaeth ac animeiddiadau ar gyfer y prosiect.

Ysgol Gyfun Gymraeg Bryn Tawe

# Camu nôl i'r oesoedd canol



Ffocws prosiect Blwyddyn 1 oedd defnyddio fformat y cyfresi teledu *Come Dine With Me* a *Through The Keyhole* i rannu gwybodaeth am yr 'Oesoedd Canol' mewn ffordd fywiog a pherthnasol. Bu gofyn i'r disgyblion ymchwilio i sgriptio, perfformio, recordio a golygu'r rhaglenni. Wrth recordio'r rhaglenni, aeth y disgyblion i ymweld â Chastell Cydweli, Pentref Canoloesol Cosmeston, a stiwdios Tinopolis. Datblygodd sgiliau llythrennedd disgyblion o bob lefel gallu trwy hyn. Cawsant gyfle i sgriptio, golygu, darllen, ymarfer a chwarae rôl o flaen cynulleidfa go iawn. Mae diddordeb y disgyblion yn yr Oesoedd Canol wedi cynyddu yn nhermau arferion, enwogion, diwylliant, bwyd a gwisgoedd. Cyfoethogwyd dysgu'r disgyblion am fod ganddynt ymdeimlad o berchnogaeth dros y prosiect am fod gofyn iddynt addasu'r wybodaeth yr oeddent wedi ei dysgu at ddibenion y gynulleidfa.

44 o ddysgwyr Blwyddyn 7

**Asiant Creadigol:** Glenda Jones
**Ymarferydd Creadigol:** Llinos Mai

Dyniaethau

Ysgol Gyfun Gymraeg Bryn Tawe

## Y Cynllun 'Yma i Ddysgu'



Yn ystod yr ail flwyddyn, llesiant a llais y disgybl oedd ffocws yr ysgol. Roedd yna ystafell yn yr ysgol i'r disgyblion fynd iddi, ond roedd yna deimlad y gellid gwella ar y lle.

Rhoddwyd cyfle i'r disgyblion gynnig syniadau am sut i newid yr ystafell, a oedd yn cynnwys ymchwilio, rhannu syniadau, cydweithio a chymryd cyfrifoldeb. Aethon nhw ati wedyn i weithio gyda'r Ymarferwyr Creadigol a'r staff i drawsnewid yr ystafell i greu lle ar gyfer llesiant a dysgu a oedd wedi cael ei ddylunio a'i greu gan y disgyblion. Ers cyflawni'r prosiect, mae'r staff wedi gweld gwelliannau yn ymddygiad ac agwedd llawer o'r disgyblion. Yn ogystal, dywedodd y disgyblion eu bod yn ymfalchïo yn yr ystafell a'u bod yn teimlo perchnogaeth drosti. Mae llawer o ddisgyblion yn defnyddio'r ystafell i ymdawelu neu i drafod problemau gyda'u ffrindiau a staff. Mae disgyblion yn mynd i'r ystafell i ddilyn rhaglenni mentora personol gyda'r staff sy'n gweithio yno hefyd. Mae amgylchedd braf yn yr uned erbyn hyn, ac mae hynny'n gwneud cyfraniad clir at ansawdd y sesiynau mentora.

20 o ddysgwyr Blwyddyn 8-11

**Asiant Creadigol:** Glenda Jones
**Ymarferwyr Creadigol:**
Carys Tudor a Rhys Thomas

Iechyd a Lles

## Ysgol Harri Tudur

### Sut y gall strategaethau dysgu creadigol helpu i wella canlyniadau addysgol grŵp o ddysgwyr gwrywaidd?

20 o ddysgwyr Blwyddyn 10

**Asiant Creadigol:** wan Brioc
**Ymarferwyr Creadigol:**
Mike Hotson, Sara Wentworth (Arts4Wellbeing), Gordon Main

Roedd y prosiect hwn yn seiliedig ar Lord of the Flies gan William Golding a'i ffocws oedd gwella ymddygiad, gallu, sgiliau canolbwyntio ac ymgysylltiad grŵp o fechgyn CA4. Roedd effaith y prosiect yn cynnwys cynnydd clir mewn sgiliau cymdeithasol. Nid oedd y mwyafrif o'r grŵp ar y trywydd iawn i basio eu harholiadau cyn y prosiect, ond llwyddodd 36% o'r bechgyn a gymerodd ran i gael gradd C yn eu harholiad TGAU Saesneg.

**Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu**

## Ysgol Mair

### A all agwedd greadigol at ddatrys problemau mathemateg wella cyrhaeddiad dosbarth o ddisgyblion Blwyddyn 3 a 4?

30 o ddysgwyr Blwyddyn 3 a 4

**Asiant Creadigol:** Toria Collins
**Ymarferwyr Creadigol:**
Ali Pickard a Ticky Lowe

**Mathemateg a Rhifedd**

**Gwyddoniaeth a Thechnoleg**

Esblygodd y thema yn ystod y prosiect wrth i'r disgyblion ddod yn angerddol ynghylch problem llygredd plastig yn y môr. Fe ddatblygon nhw eu sgiliau datrys problemau wrth greu modelau symudol; gan greu'r tŵr uchaf y gallen nhw o sbwriel a chreu animeiddiad i godi ymwybyddiaeth am lygredd plastig. Gwelwyd gwelliant sylweddol yn sgiliau cydweithio a dyfalbarhad y dysgwyr, a arweiniodd at well gwaith grŵp, a gwell cyfathrebu a datrys problemau.

Ysgol Morfa Nefyn

# Sut mae cynyddu ymgysylltiad dysgwyr â rhifedd a mentergarwch trwy ddefnyddio a datblygu sgiliau cymhwysedd digidol?



17 o ddysgwyr Blwyddyn 2 a 3

**Asiant Creadigol:**
Lisa Gwilym/Sara Ashton Thomas
**Ymarferwyr Creadigol:**
Owain Llŷr, Martin Thomas a Siân Thomas

Yn rhan o'r dasg gychwynnol aeth y dysgwyr allan i gyfweld â siopwyr lleol am eu busnes i fwydo eu gwaith ymchwil. Aethant ati i ddefnyddio'r wybodaeth yma i ddatblygu eu syniadau eu hunain am gwmni pobi, cyn creu logo a hysbyseb ar gyfer y cwmni. Fe ddatblygon nhw eu sgiliau cymhwysedd digidol trwy ddefnyddio offer ffilmio, trosleisio ac fe'u cyflwynwyd i olygu a defnyddio dronau i ffilmio hefyd. Datblygodd eu sgiliau rhifedd trwy greu eu cynhyrchion bwyd eu hunain, wrth fesur, pwyso ac amseru'n gywir. Bu angen hefyd iddynt gyfrif prisiau adwerthu eu cynnyrch er mwyn sicrhau eu bod yn gwneud elw. Trwy gydol y prosiect, defnyddiodd yr athro a'r ymarferydd gemau a drama i helpu dysgwyr i fagu hyder. Arweiniodd y profiad yma o ddysgu o fywyd go iawn at welliannau yn chwilfrydedd, dychymyg, disgyblaeth, dyfalbarhad a sgiliau cydweithio'r dysgwyr. Cafodd y prosiect effaith glir ar gyrhaeddiad y disgyblion ym maes rhifedd hefyd.

Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu

Mathemateg a Rhifedd

## A fydd creu sianel YouTube Cymraeg yn gwella safonau llafaredd cyffredinol disgyblion Blwyddyn 5 a 6 yn Gymraeg?



36 o ddysgwyr Blwyddyn 5 a 6

**Asiant Creadigol:** Emrys Williams
**Ymarferydd Creadigol:**
Ed Holden (Mr Phormula)

Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu

Cymhwysedd Digidol

Archwiliodd y prosiect ddatblygiad rhugldER yn y Gymraeg, a sut y gellir datblygu Cymraeg llafar gan ddefnyddio'r cyfryngau cyfoes, recordio sain a fideo. Ffocws y gwaith oedd gwyddoniaeth a chwaraeon, a defnyddiwyd amryw o leoliadau ar dir yr ysgol i ffilmio eu harbrofion a'u sesiynau tiwtora gan ymgorffori rap, bît-bocsio, perfformio a chwarae ar eiriau. Ar ôl eu cyhoeddi ar YouTube, cafodd y ffilmiau eu defnyddio gan ddisgyblion eraill yr ysgol at ddibenion dysgu annibynnol. Datblygodd y dysgwyr yn gynt o lawer na'r disgwyl ac mewn amrywiaeth o byncIau yn ystod y cyfnod hwn, nid dim ond ym maes llafaredd Cymraeg. Gwelwyd twf sylweddol yn hyder y disgyblion; a digwyddodd rhywbeth digon annisgwyl pan ofynnodd criw o fechgyn a allai fod yn anodd eu hymgysylltu, ac sydd byth yn cyfrannu yn y dosbarth, am gael perfformio eu gwaith i'r dosbarth, a hynny'n llwyr o'u gwirfodd



## Mathemateg Ryfeddol a Phennod Newydd

Yn ystod blwyddyn gyntaf y Cynllun Ysgolion Creadigol Arweiniol, bu peiriannydd a phensaer yn cydweithio â dosbarth Mathemateg Blwyddyn 9 i gyflawni'r briff 'Mathemateg Ryfeddol'. Gan weithio gyda brwdfrydedd y myfyrwyr dros McDonalds, aethant ati i ymchwilio ac arbrofi â phersbectifau un pwynt - sef delwedd sydd ond yn gwneud synnwyr o safbwynt penodol. Creodd y disgyblion fodel o'r tu fewn i fwyty McDonalds i raddfa, gan arbrofi ag onglau a safbwyntiau o bersbectif. Yn ystod yr ail flwyddyn, mae'r ysgol yn canolbwyntio ar lyfrgell eu hysgol, gyda dau grŵp blwyddyn yn yr ysgol yn archwilio syniadau am beth sy'n gwneud i le deimlo o werth i bobl. Mae'r dosbarth wedi dangos cynnydd sylweddol yn eu sgiliau cydweithio, eu cymhelliant a'u hagweddau cadarnhaol at ddysgu.

---

21 o ddysgwyr Blwyddyn 6 ac 16 o ddysgwyr Blwyddyn 11

**Asiant Creadigol:** Elizabeth Stonhold
**Ymarferwyr Creadigol:**
Blwyddyn 1 – Peter Pickford a Chris Evans
Blwyddyn 2 – Craig Thomas a myfyrwyr dylunio mewnol

Mathemateg a Rhifedd

## Ysgol Plascrug

# A all dull sy'n seiliedig ar bwnc penodol sy'n cynnwys symud ac adrodd straeon, ddatblygu hyder, mwynhad a hyfedredd plant mewn llafaredd a llythrennedd ysgrifenedig?



Bu disgyblion Blwyddyn 5 yn gweithio gydag animeiddiwr, dawnsiwr a drymiwr i wella eu llafaredd a llythrennedd ysgrifenedig trwy ddawns, symud ac animeiddio. Y disgyblion eu hunain fu'n gyfrifol am ddewis a oeddent am ganolbwyntio ar yr elfen coreograffi/dawns/cerddoriaeth, ynteu ar yr elfen animeiddio, a ffrwyth hyn oedd creu un ffilm cyfrwng cymysg a oedd yn adrodd stori antur gydweithredol ar y thema "Ar Saffari". Cyn pen dim daeth y plant yn animeiddwyr annibynnol, ac aethant ati i ddatblygu eu sgiliau cydweithio gan weithio mewn timau bach arbenigol. Ffeindiodd nifer o'r disgyblion a oedd wedi bod yn ysgrifenwyr hwyrfrydig ddyfnder newydd i'w gwaith ysgrifennu, a daeth rhai o'r siaradwyr llai hyderus yn fwy rhugl a soffistigedig yn eu siarad. Daeth yr athrawon yn fwy hyderus hefyd wrth roi cynnig ar ffyrdd newydd o wneud pethau, a gwelsant bwysigrwydd rhoi'r amser a'r rhyddid i blant eu mynegi eu hunain a'u syniadau.

55 o ddysgwyr Blwyddyn 5

**Asiant Creadigol:** Rosie McConnell
**Ymarferwyr Creadigol:**
Hannah Engelkamp – Animeiddiwr a storïwr,
Rosa Carless – Dawnswraig stryd a choreograffydd,
Emmanuel Okuni – Meistr drymio

**Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu**

**Mathemateg a Rhifedd**

## Ysgol Rhos Helyg



Y nod wreiddiol wrth sefydlu'r prosiect Ysgolion Creadigol Arweiniol oedd cynorthwyo a hybu sgiliau darllen, ond esblygodd yn gyflym i fod yn brosiect i helpu'r disgyblion i archwilio'u llythrennedd emosiynol. Creodd y disgyblion, yr athro a'r ymarferydd creadigol beiriant wedi ei fodelu o sbwriel – a daeth y peiriant yma'n ddolen gyswllt rhwng y disgyblion â chreadur o'r gofod o'r enw 'Zog' a oedd am ddysgu am y Ddaear. Roedd diddordeb arbennig gan Zog mewn beth oedd yn gwneud i'r myfyrwyr chwerthin, a sut y gellid troi emosiwn negyddol yn un positif. Cynyddodd lefel ymgysylltiad y disgyblion â phob agwedd ar y dysgu yn ddramatig yn ystod y prosiect, ac yn ôl eu hathrawon, parhaodd hyn o fewn y diwrnod ysgol arferol. Roedd y myfyrwyr yn taclo tasgau anoddach, gan ddangos dyfalbarhad a llai o ddatgysylltiad.

10 o ddysgwyr Blwyddyn 2 - 5

**Asiant Creadigol:** Cath Rigler
**Ymarferwyr Creadigol:**
Lleucu Meinir – ffotograffydd,
Ffion Bowen – arbenigydd drama

Iechyd a Lles

## Ysgol San Sior

# Sut gallwn ni ddefnyddio prosesau ffotograffiaeth cynnar i ysbrydoli datblygiad sgiliau rhifedd disgyblion ar draws y cwricwlwm a chynorthwyo ymgysylltiad yn y dosbarth, gan gau'r bwlch rhwng y rhywiau ym Mlwyddyn 2?

Roedd y prosiect yma'n defnyddio byd natur i'w hysbrydoli; casglodd y disgyblion wrthrychau naturiol ac aethant ati i ddatblygu printiau syanoteip yn rhan o thema golau a thywyllwch y dosbarth. Cafodd y ffotograffau eu printio ar gardiau cyfarch, ac aeth y dosbarth i ymweld â busnesau lleol i geisio gwerthu eu cynnyrch. Nod yr ysgol yw darparu cwricwlwm ysgogol ac ymestynnol, ymbweru'r plant i feddwl drostyn nhw eu hunain a rhagori ar eu disgwyliadau; sylweddoli beth yw cyfyngiadau'r ystafell ddosbarth fel amgylchedd dysgu a'r cyfleoedd y mae'r amgylchedd ehangach yn eu cynnig. Llwyddodd y prosiect i ragori'n aruthrol ar ei nodau yn hyn o beth, ond yn ogystal, caeodd y bwlch rhwng y rhywiau a oedd wedi bod yn ffocws ar gyfer sylw'r ysgol ym Mlwyddyn 2.





- Mathemateg a Rhifedd
- Gwyddoniaeth a Thechnoleg

31 o ddysgwr Blwyddyn 2

**Asiant Creadigol:**
Vivienne Rickman-Poole
**Ymarferydd Creadigol:** Eleri Griffiths

## Ysgol Y Dderi



# 'Diarhebion' / 'Proverbs' - sut gellir gwella cymhwysedd digidol drwy ddysgu creadigol er mwyn datblygu sgiliau llythrennedd a rhifedd?

Archwiliodd y dysgwyr gopïau o sgriptiau canoloesol a llyfrau ysgol o Oes Fictoria yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru er mwyn creu gwaith celf wedi'i ysbrydoli gan y diarhebion y daethant ar eu traws. Arweiniodd yr arbrofi hwn gydag iaith weledol at roi gogwydd cyfoes ar eu dihareb dethol, gan ddefnyddio mytholeg straeon Pokémon i ysgrifennu datganiadau artistiaid. Dangosodd Incerts fod y prosiect wedi cael effaith gadarnhaol ar sgiliau llythrennedd a rhifedd y dysgwyr. Gwelwyd gwelliannau clir yn llawysgrifen a gallu'r dysgwyr i feddwl yn greadigol ac wysg eu hochr, yn ogystal â thwf yn eu huchelgais, eu hyder a'u gwytnwch.

---

42 o ddysgwyr Blwyddyn 5 a 6

**Asiant Creadigol:** Cath Sherrell
**Ymarferydd Creadigol:** Helen Duffee

Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu

## Ysgol Y Faenol





### Archwilio straeon Cymru a'u cyflwyno trwy'r cyfryngau digidol. Cynhyrchu animeiddiad yn seiliedig ar stori werin Gymreig gan ddatblygu sgiliau adrodd straeon y disgyblion ar lafar a'u sgiliau sgriptio, ynghyd â'u cymhwysedd digidol.

Dechreuodd y prosiect â ffair straeon, lle dyluniodd y disgyblion eu cwtshys straeon eu hunain, gan adrodd tair stori i ddisgyblion iau'r ysgol er mwyn magu eu hyder. Cymerodd y disgyblion ran mewn gweithgareddau drama, a ddatblygodd eu sgiliau gwrando a chreadigol trwy hynny. Wedyn gweithiodd y disgyblion mewn dau grŵp i animeiddio'u straeon gan greu'r holl gefndiroedd a chymeriadau ar gyfer amrywiaeth o olygfeydd. Yn sgil hyn, creodd y disgyblion gerddoriaeth thema, a'i recordio. Cynhaliwyd y rhan fwyaf o'r sesiynau yn yr ysgol, ond fe gysyllton nhw'r straeon â'r dirwedd leol hefyd trwy fynd allan i ymweld â thri safle stori Breuddwyd Macsen. Cododd safonau llafaredd y disgyblion yn sgil y rhaglen, a datblygodd eu hyder a'u cymhwysedd digidol hefyd, llawer yn fwy nag yr oedd yr ysgol wedi ei ddisgwyl. Cododd lefelau presenoldeb yr ysgol o 92.76 i 97.93 yn ystod y prosiect.

---

29 o ddysgwyr Blwyddyn 4 a 5

**Asiant Creadigol:** Martin Hoyland
**Ymarferwyr Creadigol:**
Fiona Collins a Jim Elliot

☑ **Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu**

☑ **Cymhwysedd Digidol**

## Ysgol Y Gogarth

**Nod y prosiect Blwyddyn 3 cyfredol yma yw gwireddu newid ysgol-eang trwy ddatblygu dulliau traws-gwricwlaidd o weithredu, ac yn benodol o fewn pwnc STEAM. Mae hyn yn cael ei ategu gan addysgeg dysgu creadigol; trwy sicrhau bod y gwaith yn cael ei arwain gan y disgyblion a bod y disgyblion yn cael cyfleoedd i ddatblygu Arferion Creadigol y Meddwl.**

Bu'r ysgol yn gweithio gydag ymarferwyr creadigol ysbrydoledig ym Mlwyddyn 2, a datblygwyd perthnasau gwaith effeithiol iawn, gan gynnwys trafodaeth ac archwiliad helaeth o'r gwahanol fathau o addysgeg. Fe sylwon nhw sut y gall Arferion Creadigol y Meddwl gael gwir effaith ar ddysgu. Mae'r Ymarferwyr Creadigol yn angerddol ac yn awyddus i ymgysylltu â holl staff yr ysgol, ac maent wedi cynnal achlysuron hyfforddi ar gyfer yr ysgol o ran sgiliau technegol ac addysgeg. Eleni, maent yn bwriadu cymryd cam sylweddol ymlaen ar y siwrnai i roi cwricwlwm newydd a difyr ar waith ar gyfer eu dysgwyr ac ar gyfer yr holl bobl broffesiynol o dan sylw.

Daw'r dysgwyr o Flwyddyn 10 yn bennaf, ond bydd yr holl ddisgyblion wedi cymryd rhan erbyn diwedd y flwyddyn.

**Asiant Creadigol:** Martin Hoyland
**Ymarferwyr Creadigol:**
Rob Spaull a Charles Gershom



- [x] Gwyddoniaeth a Thechnoleg
- [x] Celfyddydau Mynegiannol

## Ysgol Y Traeth



**Archwilio sut i wella safonau llafaredd disgyblion Blwyddyn 1 mewn ffordd greadigol, trwy gydweithio a dyfalbarhau er mwyn datrys problemau. Hoffem ddefnyddio'r ardal leol o'n cwmpas i sbarduno creadigrwydd y prosiect.**

Roedd thema'r prosiect yn seiliedig ar eu tref, sef y Bermo; a dysgu am ei nodweddion heddiw a sut mae hi wedi newid dros y can mlynedd diwethaf. Digwyddodd y rhan fwyaf o'r sesiynau ar y traeth, dafliad carreg o'r ysgol. Bob wythnos, byddai cymeriad dychmygol o'r enw Wil y Pysgotwr yn ymweld â'r disgyblion ar y traeth er mwyn adrodd straeon am y gorffennol, gan danio dychymyg y disgyblion a datblygu eu sgiliau datrys problemau wrth helpu Wil i ddod o hyd i'w gist trysor.

Gwelwyd tystiolaeth o welliannau sylweddol yn safonau llafaredd Cymraeg y disgyblion; roedd y dysgwyr yn fwy hyderus wrth siarad Cymraeg â'i gilydd yn sgil y prosiect.

---

26 o ddysgwyr Blwyddyn 1

**Asiant Creadigol:**
Mari Rowland Hughes
**Ymarferwyr Creadigol:**
Elin Jones a Llyr Edwards

Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu

## Cydweithio Creadigol

Mae Cydweithio Creadigol yn canolbwyntio ar weithgareddau celfyddydol, diwylliannol a chreadigol nad ydynt yn gyffredin ac nid ydynt yn rhedeg o'r felin. Gall ysgolion a / neu sefydliadau celfyddydol wneud cais am gyllid hyd at £15,000 i ddatblygu prosiectau mwy uchelgeisiol a pharhaus. Hanfod Cydweithio Creadigol yw arloesedd.




National Theatre Wales, Canolfan Dysgu Sir Benfro ac Uned Cyfeirio Disgyblion CA4, Doc Penfro

## Uned Cyfeirio Disgyblion Canolfan y Gors a Chanolfan Addysgu a Dysg Uwchradd Sir Gaerfyrddin

# Man a Man a Mwnci



Bu'r grŵp yma o ddysgwyr yn gweithio mewn stiwdio gydag artistiaid a dylunwyr ar brosiect llesiant pwrpasol 'Man a Man a Mwnci'. Gan ddefnyddio model menter gymdeithasol, sefydlodd y grŵp eu siop dros dro eu hunain yn gwerthu gweithiau celf a oedd wedi eu creu gan y bobl ifanc eu hunain, ochr yn ochr â chrefftwyr proffesiynol. Nodau'r prosiect oedd amlygu defnyddiau cadarnhaol o'r cyfryngau cymdeithasol ac ymbweru'r grŵp yma o bobl ifanc i ymchwilio'n annibynnol. Gwelwyd cynnydd yn hyder, hunangred a dyheadau'r dysgwyr.

***'Mae'r profiad cyfan wedi bod yn bleserus. Roeddwn i wrth fy modd ar y gweithdy printio, ac yn gweld fy ngwaith ar ddangos. Mae hyn wedi rhoi'r hyder i mi roi cynnig ar bethau newydd yn y dyfodol. Roedd cael gweithio yn y siop a gweld yr holl waith roedden ni wedi ei greu yn cael ei brynu yn hyfryd'*** – Dysgwr

***'Mae bod mewn coleg celf â myfyrwyr yn gweithio o'u cwmpas yn cynnig awyrgylch creadigol gwych i'r dysgwyr. Mae'n eu hannog i gwestiynu ac yn gwneud chwarae creadigol yn broses ddysgu ddilys, boed gyda phapur, defnydd, cynfas neu efydd. Mae angen mynd ati yn yr un dull i ddatrys problemau a dadansoddi.'*** – Artist

---

20 o ddysgwyr CA3 a CA4

**Partneriaid y prosiect:**
Ysgol Gelf Caerfyrddin,
Oriel Myrddin

**Cymhwysedd Digidol**

**Iechyd a Lles**

# Lledrith



***'Trwy gydol y prosiect, rhoddodd yr artistiaid gymaint o sylw i ddisgyblion sy'n gwerthfawrogi gwaith mewn ffordd synhwyraidd. Cafodd math o gof synhwyraidd ei greu ar gyfer gweithgareddau yn y dosbarth celf. Bu modd adlewyrchu hyn yn effeithiol iawn yn y gofod arddangos hefyd. Roedd y disgyblion yn cael eu hysbrydoli'n barhaus i ddatblygu sgiliau i fynegi eu teimladau.'*** – Athro

***'Mae'r disgyblion wir wedi mwynhau hyn, ac mae hi wedi gwella eu hyder mewn gwahanol agweddau creadigol. Gadawodd y prosiect argraff arbennig iawn ar fy nosbarth. Roedd hi'n brosiect ardderchog a wnaeth argraff ar y disgyblion a'r staff. Rwy'n gobeithio gallu ymgorffori rhai agweddau o'r dysgu creadigol a ddysgais yn yr ystafell ddosbarth bob dydd.'***– Athro

Ysgol arbennig yng Nghaernarfon yw Ysgol Pendalar. Ar y cyd â'r cwmni theatr, Cwmni'r Frân Wen, aethant ati i ddatblygu gosodwaith artistig ar dir yr ysgol i ddathlu'r ffaith eu bod wedi bod ar y safle ers 10 mlynedd. Roedd y gosodwaith yn cynnwys celfyddyd weledol, sain, cerddoriaeth a ffilm, ac fe'i crëwyd gan y disgyblion i greu amgylchedd amlsynhwyraidd. Ymgysylltodd y prosiect hwn ym maes y celfyddydau mynegiannol y disgyblion mewn gweithdai, gan hyrwyddo mynegiant creadigol, meithrin eu hyder a delio â themâu ymestynnol. Mae'r berthynas a ddatblygodd rhwng Cwmni'r Frân Wen a'r ysgol wedi sbarduno nifer o bosibiliadau ar gyfer prosiectau celfyddydol ar y cyd yn y dyfodol. Mae'r cwmni wedi dweud eu bod yn rhoi cynllun newydd arloesol ar waith sy'n cynnig cyfleoedd i ddatblygu artistiaid ifanc ag anableddau, a hynny diolch yn uniongyrchol i lwyddiant y prosiect yma.

---

38 o ddysgwyr CA4

**Partneriaid y prosiect:**
Mirain Fllur, Mari Morgan

**Celfyddydau Mynegiannol**

## Sut mae chwalu'r ffiniau wrth bontio o'r ysgol gynradd i'r ysgol uwchradd gan ddefnyddio prosiect drama arloesol sy'n cynnwys y disgyblion?

Cynhaliodd myfyrwyr Dyffryn Taf weithdai ar gyfer dosbarthiadau Blwyddyn 6 naw o ysgolion cynradd. Roedd y gweithdai'n cynnwys creu effeithiau sain, dylunio set a dysgu dawns. Perfformiodd myfyrwyr Dyffryn Taf y sioe (The Daydreamer) ar gyfer ffrindiau, perthnasau a staff yr ysgolion gyda phlant dosbarth 6 yn ymuno yn y dawnsfeydd roeddent wedi eu dysgu. Nod hyn oedd meithrin perthynas rhwng teuluoedd y disgyblion Blwyddyn 6 newydd er mwyn helpu'r disgyblion i ymestyn eu gorwelion eu hunain i fod yn fwy hyderus a gwydn.

Dangosodd canlyniadau'r prosiect newidiadau amlwg yn ymddygiad a phresenoldeb y disgyblion yn ogystal â meithrin cysylltiadau cadarn rhwng y gymuned a'r ysgol. Daeth niferoedd aruthrol i'r perfformiad, gan gynnwys teuluoedd y perfformwyr Blwyddyn 6, a oedd yn dangos bod yna ymateb cadarnhaol i'r ffaith fod disgyblion Blwyddyn 6 yn ymgysylltu â'r myfyrwyr hŷn.

Soniodd y myfyrwyr hŷn sut deimlad braf oedd bod yn 'esiampl' i'r disgyblion iau,.

'*Gwelwyd gwelliannau aruthrol mewn un disgybl, sef Chloe, yn ystod y prosiect. Roedd ei phresenoldeb isel yn destun pryder cyn y prosiect, ond rhoddodd y gweithdai gyfle iddi ei mynegi ei hun ac ail-afael yn ei bywyd ysgol. Datblygodd gyfeillgarwch cadarn ac iach â rhai o'r lleill, ac mae hyn wedi rhoi cymhelliant iddi ddod i'r ysgol.'*
Brownwen Rashad

*'Fe ddatblygais i sgiliau Drama a Chelf ac roeddwn i'n teimlo bod gweithio gyda disgyblion Blwyddyn 6 o'n hysgolion cynradd lleol yn fuddiol iawn. Roeddwn i wrth fy modd yn mynd i'r ysgol ac yn cwrdd â'r disgyblion'* – Chloe

---

152 o ddysgwyr Blwyddyn 6, 8 a 9

**Partneriaid y Prosiect:**
Ysgol Uwchradd Dyffryn Taf, Ysgol Gynradd Griffith Jones, Ysgol Gynradd Arberth, Ysgol Gynradd Tarfarnspite, Ysgol Gynradd Tredeml, Ysgol Gynradd Meidrim, Ysgol Gynradd Tremoilet, Ysgol Gynradd Llanmiloe, Ysgol Gynradd Llys Hywel, Ysgol Gynradd Bro Brynach

**Celfyddydau Mynegiannol**

Mae'r sefydliad celfyddydau cymunedol Celf ar y Blaen wedi ymgysylltu naw ysgol mewn dau brosiect arloesol: TwLetteratura a ShipShape: Siwrnai o Ddarganfod

## TwLetteratura

Bu Celf ar y Blaen yn gweithio gyda Menter Caerffili a thair ysgol cyfrwng Cymraeg - (Ysgol Gymraeg Cwm Gwyddon, Ysgol Penalltau ac Ysgol Trelyn) i archwilio ffyrdd difyr o annog pobl ifanc i ddefnyddio'r Gymraeg ar lein ac wrth ryngweithio â'r cyfryngau digidol.

Fe wnaethant hyn trwy ddefnyddio offeryn dysgu newydd ac arloesol o'r Eidal. Roedd yr offeryn dysgu'n cynnwys dull o ddarllen (TwLetteratura) ac ap (Betwyll) a ddyluniwyd i gynyddu mwynhad darllenwyr hwyrfrydig o ddarllen trwy gyfuno sgiliau darllen hen-ffasiwn â hwyl rhwydweithio cyfoes ar y cyfryngau cymdeithasol!

Datblygodd y dysgwyr sgiliau "darllen dwfn" a oedd yn helpu gyda llythrennedd, a chawsant brofiad o ddefnyddio'r Gymraeg y tu allan i'r ysgol wrth ddefnyddio'r cyfryngau digidol. Maent yn dangos gwell ymgysylltiad â darllen a defnydd mwy cadarnhaol o weithgareddau rhwydweithio cymdeithasol yn sgil hyn.

***'Ar ôl rhyngweithio ag awdur a chyhoeddwr, mae'r disgyblion yn deall y broses o ysgrifennu a chyhoeddi - maen nhw wedi magu hyder o fod yn rhan o brosiect cydweithredol lle maent yn gallu arwain ar elfennau a theimlo bod eu syniadau'n cael eu clywed'.***

270 o ddysgwyr Blwyddyn 5 a 6

**Partneriaid y prosiect:**
Associazione Culturale Twitteratura, Llên Cymru, Menter Iaith Caerffili, Gwasg Gomer, Dan Anthony, Huw Aaron, Ioan Kidd a Rufus Mufasa

Celfyddydau Mynegiannol

## ShipShape: Siwrnai o Ddarganfod (Prosiect offer dysgu rhyngweithiol)

***'Roedd y prosiect yn eu hannog i feddwl am eu profiadau a "dadansoddi" cydrannau o'r gweithdy fel bod ganddynt well dealltwriaeth o'r elfennau a'r prosesau o dan sylw. Mae'r profiad wedi annog y disgyblion i chwarae rhan fwy rhagweithiol, a llai goddefol, yn eu haddysg'***

Bu Celf ar y Blaen yn gweithio gyda phump ysgol – (Ysgol Gynradd Abergoed, Ysgol Gynradd Derwendeg, Ysgol Gynradd Fochriw, Ysgol Iau yr Hendre ac Ysgol Gymraeg Caerffili)

Profiad dysgu rhyngweithiol yw ShipShape sy'n cynnwys adrodd straeon, rhyngweithio ffisegol, arbrofion a realiti estynedig. Mae'r disgyblion yn creu amrywiaeth o offer dysgu newydd arloesol a fydd o fantais arbennig i'r rhai sy'n cael anhawster gyda dulliau mwy ffurfiol o ddysgu, ac sydd angen bod yn weithgar yn gorfforol.

Roedd profiad ShipShape yn cynnwys teithiau dwy long - llong hwylio hen ffasiwn a chynhwyslong fodern. Roedd hyn yn ymgorffori adrodd straeon, gweithgarwch corfforol, datrys problemau, chwarae rôl, arbrofi, archwilio, sgiliau TG (defnyddio iPads â "phyrth" realiti estynedig), gwaith tîm, gwneud penderfyniadau a sialensiau.

Cafodd y dysgwyr gyfle i arwain prosiect a lleisio'u syniadau. Rhoddodd hyn hyder iddynt i'w cynorthwyo i gynllunio eu dysgu.

---

170 o ddisgyblion Blwyddyn 5

**Partneriaid y prosiect:** Hawila Project

Celfyddydau Mynegiannol

Ysgol Gynradd Parc Jiwbilî a Ballet Cymru

# Whimsy

Straeon a rhifedd oedd wrth galon y prosiect hwn a oedd yn cynnwys gweithdai a pherfformiad. Gan weithio gydag ymarferwyr y celfyddydau gweledol, bu'r disgyblion yn archwilio'r celfyddydau mynegiannol fel ffordd o ddysgu a chydweithio, datrys problemau a defnyddio'u dychymyg. Mae prif gymeriad Whimsy'n gweld prydferthwch yn y byd, ond yn ei chael hi'n anodd gweld prydferthwch ynddi hi ei hun.

Mae'r stori'n archwilio'r syniad bod pob plentyn yn unigryw, a bod pob un yn tyfu yn ei ffordd ei hun. Cyfrannodd y prosiect at feithrin hunanymwybyddiaeth, hunan-barch a hyder, sef meysydd yr oedd yr ysgol wedi eu pennu fel meysydd ffocws.

Celfyddydau Mynegiannol

20 o ddysgwyr Blwyddyn 6

**Partneriaid y prosiect:**
Krystal Lowe, Prifysgol De Cymru
Cynhyrchiad theatr dawns

## *Y Delyn Doredig*

# Coblynnod Bargoed a Chewri'r Gilfach! Sut gallwn ni atgyfodi'r fenter ddiwylliannol i roi bywyd newydd i chwedlau lleol o'u milltir sgwâr?

Rhoddodd y prosiect yma gyfle i ddisgyblion Ysgol Lewis archwilio dwy gyfrol o farddoniaeth, straeon a chwedlau a gasglwyd ac a ysgrifennwyd gan ddisgyblion 1911, ac a olygwyd gan Thomas Matthews, gwr Dadeni dechrau'r ugeinfed ganrif. Defnyddiodd Larry Allan hyn fel ffocws ar gyfer y Delyn Doredig, gan blethu materion cyfoes a diwylliant ieuenctid i chwedlau a chwedloniaeth yr ardal, ac erchyllterau'r Rhyfel Byd Cyntaf.

Bu'r disgyblion yn gweithio gyda'u grwpiau cyfeillgarwch a gyda disgyblion hŷn, mwy profiadol, gan elwa ar fewnbwn tîm o ymarferwyr theatr proffesiynol. Datblygwyd sgiliau fel actio, dawnsio a pherfformio cerddoriaeth ar y drymiau, y gitâr, y gitâr fas, rapio a chanu.

Trwy hyn, crëwyd naratif grymus ac ysgogol a oedd yn ddoniol ac yn angerddol, gyda sgôr gwreiddiol atgofus o waith y myfyrwyr cerddoriaeth. Tarodd y darn dant gyda'r disgyblion a'r cynulleidfaoedd fel ei gilydd.

Rhoddodd y prosiect le diogel i'r disgyblion eu harchwilio eu hunain a'u perthnasau, wrth ddatblygu sgiliau pwysig fel empathi, ffocws, canolbwyntio, gwrando, cyfathrebu, hyder a hunan-barch.

*'…os rhowch chi'r cyfle i bobl ifanc fod yn gatalyddion ar gyfer creadigrwydd, byddan nhw'n eich syfrdanu â'u galluoedd a'u dawn neilltuol.'* – Bethan Jenkins, Pennaeth Cerddoriaeth

---

173 o ddysgwyr Blwyddyn 7, 10 a 13

**Partneriaid y prosiect:**
Larry Allan, Chainworks,
Sefydliad Glowyr y Coed Duon

Celfyddydau Mynegiannol

**Cwmni Dawns Cenedlaethol Cymru gydag Ysgol Gynradd Allensbank ac Ysgol Uwchradd Cantonian**

## Sut mae ychwanegu elfen arloesol at ddysgu'r plant trwy ddawns a symud, wrth godi lefelau llythrennedd a llafaredd?

Prosiect dawns cydweithredol gyda dwy ysgol yw hwn, sef Ysgol Gynradd Allensbank ac Ysgol Uwchradd Cantonian. Nod y prosiect yw chwalu'r rhwystrau wrth ymgysylltu pobl ifanc mewn gweithgareddau dawns, yn enwedig y rhai sy'n newydd i ddawns, ac yn arbennig dysgwyr nad ydynt yn llewyrchu cymaint wrth ddysgu yn yr ystafell ddosbarth.

Mae'r artistiaid dawns, Siân Rowlands a Jack Philp wedi treulio'r tymor diwethaf yn gweithio gyda grŵp o ddisgyblion Blwyddyn 7 sy'n cael eu haddysgu yn uned Sylfaen Ysgol Cantonian. Ochr yn ochr â'u hathrawes Aimee, maen nhw wedi bod yn gweithio ar osod pethau yn eu trefn, sy'n faes o lythrennedd a bywyd pob dydd sy'n arbennig o ymestynnol iddynt. Mae'r elfen hon wedi bod yn gysylltiedig â'u gwaith thema ar y testun 'O Amgylch y Byd' er mwyn cynorthwyo ac ategu beth y maent yn ei ddysgu yn y dosbarth.

Mae'r sesiynau ymarferol hyn wedi dyrchafu'r dysgwyr i fod yn greawdwyr trwy gydweithio â'u cyd-ddisgyblion fel tîm creadigol i greu coreograffi o dan gyfarwyddyd artistiaid Cwmni Dawns Cenedlaethol Cymru.

***'Es i i ymweld â'r dosbarth yr wythnos ddiwethaf ac roedd y sesiwn yn galonogol iawn. Mae eu hathrawes, Aimee, wedi ei syfrdanu gan eu hymateb i'r ffordd yma o weithio, gyda dosbarth sy'n gallu bod yn ddigon ymestynnol ar adegau.'***
Lizzie Davies-MacMillan, Cwmni Dawns Cenedlaethol Cymru

---

90 o ddysgwyr rhwng 5 a 12 oed (Y Cyfnod Sylfaen, Cyfnod Allweddol 2 a Chyfnod Allweddol 3)

**Partneriaid y prosiect**
Cwmni Dawns Cenedlaethol Cymru, Ysgol Gynradd Allensbank, Ysgol Uwchradd Cantonian

**Artistiaid dawns:** Siân Rowlands a Jack Philp

Celfyddydau Mynegiannol

## Sut mae mynd ati i ymgysylltu disgyblion a fyddai'n gyndyn i roi cynnig ar bethau anghyfarwydd mewn prosiectau cyffrous, a rhoi profiadau iddynt na fyddent yn gallu eu profi fel arall?

Gwaith Creadigol ar y Cyd rhwng National Theatre Wales a Chanolfan Dysgu Sir Benfro oedd TEAM/PLC; y nod oedd gweithio gydag Uned Cyfeirio Disgyblion CA4 yn Noc Penfro, lle mae'r mwyafrif o'r dysgwyr yn wynebu anfanteision niferus, yn yr ysgol a'r tu hwnt, a lle nad oes fawr o weithgareddau creadigol ar gael. Gan ddefnyddio arbenigedd TEAM, rhoddwyd y cyfle i'r dysgwyr greu albwm o gerddoriaeth wreiddiol gyda ffocws ar ysgrifennu, cyfansoddi a pherfformio cerddoriaeth, am nad yw llawer o'r myfyrwyr erioed wedi cael profiad yn y maes yma. Dysgodd y myfyrwyr gan bobl broffesiynol o'r diwydiant cerddoriaeth, cyflwynwyr radio, ffotograffwyr a gwneuthurwyr ffilmiau, yn ogystal â chydweithio â nhw i greu albwm, EP radio a fideo i gyd-fynd â'r gerddoriaeth.

Ar ddiwedd y prosiect, cynhaliwyd noson lansio i'r albwm, gydag arddangosfa o ffotograffau a gwaith academaidd, wedi ei guradu a'i hyrwyddo gan y disgyblion. Rhoddodd y prosiect brofiad creadigol hynod i'r cyfranogwyr, gan ehangu eu gorwelion a lleihau effaith amddifadedd ar gyrhaeddiad academaidd yn y pendraw.

Mae'r prosiect wedi newid bywydau rhai o'r cyfranogwyr, a bu'n fuddiol dros ben i bawb, gan feithrin cynnydd mewn hyder a hunan-barch, diddordeb o'r newydd mewn dysgu, datblygiad academaidd, gwell presenoldeb a hyd yn oed gymhelliant i rai ddilyn gyrfa yn y diwydiannau creadigol. Mae dysgwyr wedi cyfoethogi eu sgiliau cyflogadwyedd ac arweinyddiaeth; maent wedi magu hyder ac wedi datblygu sgiliau a phrofiad ymarferol, nid yn unig yn nhermau datblygiad cerddorol a chreadigol, ond hefyd yn sefydliadol ac yn gymdeithasol.

---

26 o ddysgwyr 14-16 oed

Celfyddydau Mynegiannol

*'Cyn i'r prosiect yma ddechrau roedd fy hyder mor isel. Doeddwn i erioed wedi gallu fy mynegi fy hun mewn ffyrdd iach o'r blaen. Nawr rwy'n cyfansoddi ac yn perfformio fy ngherddoriaeth fy hun, ac rydw i wir yn teimlo taw hon yw'r yrfa i mi. Nawr fy mod i wedi dechrau, dydw i ddim eisiau stopio!'* – Kayleigh, Blwyddyn 10

---

## Pyka - Prosiect Pawb

*"Gadewch iddo fe fynd yn wyn i gyd, peidiwch â chyffwrdd...aaaaac 1,2,3,4... ewch! Pawb i chwarae!"*

Myfyriwr Coetir - yn arwain y Gerddorfa Mynegiant

Cymhorthion cyfathrebu a hunangynhaliaeth sy'n gallu newid bywydau eu defnyddwyr a'r bobl sy'n gofalu amdanynt, gan eu galluogi i ymgysylltu â'r byd ar lefel na fyddai modd ei chyrraedd fel arall, yw technolegau cynorthwyol.

Ar y cyd â 3 ysgol arbennig, aeth Pyka ati i greu rhaglen waith uchelgeisiol a oedd yn archwilio potensial creadigol a mynegiannol technoleg gynorthwyol, a sut mae'r feddalwedd yn cysylltu dysgwyr â'u gallu creadigol, gan eu cynnwys fel cydweithwyr allweddol wrth greu allbwn artistig o safon uchel.

Arweiniodd hyn at lwyfannu arddangosfa gyhoeddus rad ac am ddim o osodweithiau dros gyfnod o 7 niwrnod yng Nghanolfan Gelfyddydau Chapter yng Nghaerdydd. Roedd yr achlysur yn cynnwys 3 arddangosfa ymchwil ar gyfer pob un o'r Unedau creadigol (SAIN, GWELEDOL, SYMUD).

Dyluniwyd offerynnau'r Gerddorfa Mynegiant i gofleidio symlrwydd a dathlu amrywiaeth o alluoedd, gan ganiatáu i'r defnyddwyr berfformio cerddoriaeth trwy ryngweithio grymus, gan greu alawon prydferth, deinamig dramatig a rhythmau cyffrous.

i 'FFOCWS' sy'n rhoi cyfle i unigolion gymryd rheolaeth dros ddeinameg pwerus gan ddefnyddio eu llygaid.

ii 'CYFFWRDD': crëwr alawon aml-gyffyrddiad ar gyfer iOS. Mae CYFFWRDD yn nacâu'r angen am fanylder ac yn dathlu sut mae pawb yn mynd ati yn eu ffyrdd unigryw eu hunain i berfformio cerddoriaeth trwy gyffwrdd.

iii 'SYMUD': traciwr symud 3D sy'n rhoi'r cyfle i ddefnyddwyr berfformio â rhythmau sy'n cael eu creu yn seiliedig ar eu lleoliad yn yr ystafell, gan alluogi pobl i archwilio sut y gellir defnyddio eu presenoldeb ffisegol a'u lleoliad fel offeryn digidol mynegiannol.

***"Mae gan rai o'n dysgwyr broblemau gyda chyffwrdd sy'n golygu nad ydyn nhw'n hoffi cyffwrdd â gwrthrychau, byddai'r dechnoleg yma'n eu galluogi i gymryd rhan mewn gweithgareddau amser cylch, ac ymuno i mewn wrth greu cerddoriaeth a sbarduno seiniau"***
Lydia Jarvis, Athrawes, Ysgol Arbennig Tŷ Gwyn.

***"Mae beth rydych chi'n ei wneud yma wir yn chwyldroadol."***
Jamie Brotherton, Dirprwy Bennaeth, Ysgol Arbennig Tŷ Gwyn.

369 o ddysgwyr oed 3 - 19

**Partneriaid y Prosiect:** Ysgol Arbennig Tŷ Gwyn, Ysgol Uwchradd Woodlands ac Ysgol Arbennig Riverbank, Canolfan Gelfyddydau Chapter ac LC Technologies



**Celfyddydau Mynegiannol**

## Pont Senni

# Sut gallwn ni alluogi plant ac athrawon i ddeall potensial technoleg ddigidol, gwella eu sgiliau, ac ystyried sut y gall yr offer yma eu galluogi i rannu eu dysg â chynulleidfa ehangach?

Mae ffocws Casglwyr Cwestiynau ar y cwestiwn yn hytrach na'r ateb. Mae'r plant yn cael archwilio'r cwestiynau sydd ganddynt am y byd o'u cwmpas trwy ddawns, drama a barddoniaeth. Mae dull ysgol gyfan yma o fynd ati'n dangos bod pawb, yn fyfyrwyr, athrawon a hwyluswyr oll yn ddysgwyr, oll yn wyddonwyr ac oll yn artistiaid.

Prosiect creadigol dan arweiniad y plant yw hwn ac mae'n seiliedig ar ddysgu gan feithrin dysgwyr sy'n chwilfrydig am y byd, yn hyderus yn eu gwybodaeth eu hunain, ac yn gwybod sut i chwilio am atebion mewn gwahanol ffyrdd.

Mae'r prosiect yn tynnu ar bartneriaeth barhaus Dawns Powys ag Imperial College London, am y bydd y plant yn ymweld â'r brifysgol ym mis Mehefin ar daith lle byddant yn ymweld ag Amgueddfa Wyddoniaeth Llundain hefyd. Trwy gydol y prosiect byddant yn gallu rhyngweithio ag ymchwilwyr rhyngwladol blaenllaw trwy arbrofi gyda'r dudalen gwe 'Holi Gwyddonydd'.

Yr effaith a fwriedir i'r dysgwyr yw:

- Creu dysgwyr sy'n fwy chwilfrydig am y byd o'u cwmpas.
- Creu dysgwyr sy'n fwy hyderus am eu gwybodaeth a'u sgiliau eu hunain.
- Rhoi amrywiaeth o sgiliau a dulliau o weithredu i'r dysgwyr fel y gallant ddod o hyd i atebion i'r cwestiynau sydd ganddynt.

Ac i staff yr ysgol a'r artistiaid:

- Amlygu pwysigrwydd chwilfrydedd plentyn a rôl chwarae.
- Archwilio beth sy'n digwydd pan na roddir atebion uniongyrchol i ddysgwyr a phan roddir lle iddynt ffeindio atebion.
- Cyfle i rannu arferion a chael eu hysbrydoli gan ei gilydd a gan y dysgwyr.
- Yr amser i archwilio eu creadigrwydd eu hunain.

---

**Partneriaid:** Dawns Powys, Theatr Brycheiniog, Cymunedau Digidol Cymru, Imperial College London

Celfyddydau Mynegiannol

## 'Mae cerddoriaeth yn sbarduno trawsnewidiad diwrthdro mewn plentyn ... o'r funud pan fydd plentyn yn dechrau dysgu chwarae offeryn, nid yw'n dlawd mwyach, daw'n blentyn sy'n datblygu.' –

José Abreu, sylfaenydd El Sistema

## Sut mae mynd ati i ddefnyddio cerddoriaeth i daclo tangyflawniad addysgol sy'n gysylltiedig â thlodi plant yn rhai o ardaloedd mwyaf difreintiedig Gwynedd?

Sefydliad adfywio cymunedau yw Codi'r To, ac mae'n defnyddio cerddoriaeth i wella bywydau pobl ifanc a'r cymunedau lle maent yn byw. Hwn yw'r unig brosiect o'i fath yng Nghymru, ac fe'i sefydlwyd gan griw o bobl leol, a oedd wedi cael eu hysbrydoli i fynd i'r afael â'r tlodi oedd yn wynebu eu cymunedau, yn 2014. Fe fabwysiadon nhw'r dull El Sistema, sy'n deillio o Venezuela, sy'n profi bod addysg gerddorol yn gallu trawsnewid bywydau pobl ifanc ddifreintiedig a'u cymunedau.

Maen nhw'n rhoi cyfle i bobl ifanc gael blas ar gyfleoedd na fyddai wedi bod ar gael iddynt fel arall. Trwy gerddoriaeth, maen nhw'n ceisio mynd i'r afael â thlodi, cyrhaeddiad addysgol isel, iechyd gwael, dibyniaeth ar fudd-daliadau, lefelau uchel o ddiweithdra, diffyg uchelgais/hunan-barch ac ymddygiad gwrthgymdeithasol. Mae effaith Codi'r To yn arbennig o amlwg mewn disgyblion Blwyddyn 7, lle sylwodd staff yr ysgol uwchradd fod disgyblion Ysgol Glancegin, nad oeddent wedi bod yn hyderus yn eu gwersi cerddoriaeth o'r blaen, ar welliant sylweddol yn eu hagwedd ac yn safon eu gwaith perfformio a chyfansoddi.

Cafodd plant y feithrin sesiynau cerddoriaeth wythnosol 30 munud o hyd lle datblygwyd eu dychymyg trwy waith byrfyfyr ar fynd am dro yn y mwd a thrwy'r gwair, neidio yn y pyllau, plannu hadau a thyfu'n blanhigion mawr. Cawsant hwyl wrth ddatblygu eu sgiliau creadigol a chymdeithasol, a bu'r rhigymau o gymorth wrth gyfoethogi iaith y plant, a'u helpu i ynganu'n glir.

Celfyddydau Mynegiannol

*‘Roedd Lucy’n ferch dawel iawn, ac ychydig iawn o ymateb oeddem ni’n ei gael ganddi yn ystod y sesiynau cerddoriaeth wythnosol. Yn ystod y prosiect, fe sylwais arni’n dechrau canolbwyntio yn ystod y caneuon a’r rhigymau. Roedd hi’n syndod ei gweld hi’n ymuno mewn gêm gyda’r plant yn canu enwau ar eu pennau eu hunain. Pan ganodd hi â llais hudolus ac ar y traw iawn, roedden ni’n gallu gweld bod ei hunanhyder yn ffynnu, a dechreuodd hi ymuno i mewn gyda phawb arall.’* – Tiwtor, Meithrin

---

## Ysgol Gymraeg Brynsierfel

**Mewn ysgol Gymraeg lle mae 93% o’r disgyblion yn dod o gartrefi di-Gymraeg, sut mae mynd ati i ddarparu profiad uchelgeisiol o greadigol ar gyfer disgyblion wrth ddangos nad yw’r Gymraeg yn rhywbeth sy’n gyfyngedig i’r ystafell ddosbarth yn unig?**

Ar y cyd â CISP Multimedia, cynhyrchodd disgyblion Ysgol Gymraeg Brynsierfel sioe gerdd theatraidd amlgyfrwng ar thema ‘Mêl’. Cafodd y bobl ifanc eu hymdrwytho’n greadigol yn y broses gynhyrchu gyfan gan greu ffilmiau, animeiddiadau, cartwnau digidol, pypedau, ysgrifennu geiriau, recordio sain, creu propiau, dylunio setiau a hyd yn oed gwaith rheoli llwyfan. Cynorthwyodd ysgrifennu geiriau’r dysgwyr i ddatblygu sgiliau llythrennedd, a chafodd y disgyblion ddealltwriaeth unigryw am y broses gynhyrchu mewn perthynas â digwyddiadau theatraidd amlgyfrwng. Trwy gymryd perchnogaeth dros y prosiect trwy gyfrwng y Gymraeg, gwthiodd y dysgwyr y ffiniau mewn perthynas â’r Gymraeg gan gael profiad gwirioneddol fanwl ac unigryw a oedd yn datblygu eu hunan-barch, eu hunanhyder a’u teimladau o hunanwerth. Cafodd disgyblion sy’n eithaf swil neu ddi-ddweud fel rheol eu hymbweru i berfformio’n hyderus o flaen cynulleidfaoedd mawr trwy’r cydweithio creadigol.

*'Cafwyd ymateb arbennig oddi wrth y plant wrth iddynt ddysgu cân 'Gwenyn Blewog'. Aethant ati â brwdfrydedd i ddysgu'r geiriau a'r ystumiau. Buont yn canu'r gân wrth gwblhau gweithgareddau yn y dosbarth, ac yn ymarfer yr ystumiau ar yr iard chwarae. Cawsantfwynhâd mawr yn gwylio'r plant hŷn yn perfformio ac yn gwylio'rffilm a grewyd ganddynt.'*
Athrawes Dosbarth Derbyn

**'I can't bee-lieve our year is through**
**But in bee-tween farewells**
**I will say to you...**
**You helped me bee-long,**
**you reminded me to bee-have,**
**you showed me cool projects**
**that I will now save.**
**I'm all a-buzz**
**because I can plainly see,**
**My bee-loved teacher,**
**you bee-lieved in me!'**
Disgybl ym Mlwyddyn 5

**Celfyddydau Mynegiannol**

## Y Rhwydweithiau Celfyddydau ac Addysg Rhanbarthol

Mae'r Rhwydeithiau Celfyddydau ac Addysg Rhanbarthol yn darparu cangen bwysig o waith cynllun gweithredu Dysgu creadigol drwy'r celfyddydau, fel rhan o Gynnig Celfyddydau ac Addysg Cymru Gyfan. Mae'r pedwar Rhwydwaith yn gweithio gydag ysgolion, y Consortia Addysg Rhanbarthol, awdurdodau lleol a rhanddeiliaid yn y sectorau addysg, y celfyddydau, creadigol, diwylliannol a threftadaeth yn eu rhanbarthau perthnasol ar draws Cymru, sef: Canol De Cymru, De-ddwyrain Cymru, Canolbarth a Gorllewin Cymru a Gogledd Cymru.

Mae'r Rhwydweithiau Rhanbarthol wedi cynyddu ac wedi gwella profiadau a chyfleoedd celfyddydol mewn ysgolion trwy feithrin cysylltiadau rhwng:

- Athrawon, addysgwyr a phartneriaid o'r sector addysg.
- Ymarferwyr, sefydliadau a chanolfannau'r celfyddydau.
- Sefydliadau a chanolfannau diwylliannol a threftadaeth fel amgueddfeydd, llyfrgelloedd ac archifau.
- Darparwyr celfyddydau awdurdodau lleol, gan gynnwys gwasanaethau cerddoriaeth.
- Partneriaid celfyddydol a diwylliannol o'r byd addysg uwch.
- Sector y diwydiannau creadigol.



Rhwydwaith Celfyddydau ac Addysg: De-ddwyrain Cymru

## A2:Clymu (Canol De Cymru)

Mae A2:Clymu yn tynnu artistiaid ac athrawon ynghyd i ddysgu gan ei gilydd ac yn creu cyfleoedd ystyrlon i ddysgwyr archwilio a datblygu eu creadigrwydd a meithrin sgiliau ym meysydd y celfyddydau mynegiannol. Mae A2:Clymu'n cael ei arwain a'i reoli gan yr Ymddiriedolaeth Actifyddion Artistig ar ran Consortiwm adrannau datblygu celfyddydau cynghorau Clymu'r Celfyddydau neu'r Ymddiriedolaethau Elusennol cysylltiedig yn ardaloedd Pen-y-bont ar Ogwr, Caerdydd, Merthyr Tudful, Rhondda Cynon Taf a Bro Morgannwg.

connect
clymu
ARTS & EDUCATION NETWORK
CENTRAL SOUTH
RHWYDWAITH CELF & ADDYSG
CANOL DE



## Rhwydwaith Celfyddydau ac Addysg: De-ddwyrain Cymru

Mae Rhwydwaith Celfyddydau ac Addysg De-ddwyrain Cymru'n cysylltu athrawon, artistiaid a sefydliadau diwylliannol o siroedd Blaenau Gwent, Caerffili, Sir Fynwy, Casnewydd a Thorfaen i gynorthwyo ac ysbrydoli dysgu creadigol trwy'r celfyddydau. Mae'r rhwydwaith, sy'n gweithio o Sefydliad Glowyr y Coed Duon ochr yn ochr â thîm Datblygu Celfyddydau Caerffili, yn cynnig cyfleoedd datblygu proffesiynol, gwybodaeth a chyngor rhad ac am ddim i ysgolion, ymarferwyr creadigol ac addysgwyr diwylliannol sy'n gweithio mewn neu gydag ysgolion. Mae tîm o Hyrwyddwyr y Celfyddydau ag amrywiaeth o sgiliau a phrofiad wrth ddarparu'r celfyddydau mynegiannol gydag ysgolion yn cydweithio'n agos â'r rhwydwaith i ddarparu'r cynnig gwerthfawr yma. Sefydlwyd y rhwydwaith yn 2016, ac mae'n datblygu enw da am ddarparu hyfforddiant o safon uchel - gan gynnwys datblygiad a mentora proffesiynol wedi ei deilwra - ac mae'n ennill ei blwyf fel pwynt cysylltu gwerthfawr ar draws rhanbarth y de-ddwyrain.

Rhwydwaith Celfyddydau & Addysg
DE DDWYRAIN CYMRU
Arts & Education Network
SOUTH EAST WALES

## NAWR
## (Canolbarth a Gorllewin Cymru)

NAWR yw Rhwydwaith Celfyddydau ac Addysg Rhanbarthol Canolbarth a Gorllewin Cymru. Rydyn ni'n datblygu ac yn darparu rhaglen ddifyr ac ysbrydoledig o gyfleoedd datblygu proffesiynol o safon uchel ar gyfer athrawon, artistiaid, a sefydliadau ym myd y celfyddydau a diwylliant. Amcan allweddol yw cysylltu ysgolion ag artistiaid a sefydliadau'r celfyddydau trwy weithredu fel 'brocer' a sefydlu a chydlynu cyfleoedd i athrawon, artistiaid a sefydliadau o sectorau'r celfyddydau, creadigol, diwylliannol a threftadaeth rwydweithio - yn ddigidol ac wyneb yn wyneb.

Rydyn ni'n darparu ein rhaglen Hyrwyddwyr y Celfyddydau, sy'n recriwtio athrawon ac artistiaid/ ymarferwyr addysg i hyrwyddo dysgu'r celfyddydau mynegiannol mewn ysgolion, mentora athrawon eraill a bwydo a darparu'r rhaglen hyfforddi.

Rydyn ni'n hyrwyddo ac yn cefnogi ymgysylltiad ysgolion wrth gyrchu cyllid gan Gyngor Celfyddydau Cymru i fwydo profiadau plant ym maes y celfyddydau a dysgu creadigol, yn casglu ac yn lledaenu gwybodaeth am y 'cynnig' rhanbarthol ac yn rhannu esiamplau o arferion da.



**EDAU**
**(Gogledd Cymru)**




Ein nod yw cynyddu a gwella profiadau a chyfleoedd celfyddydol mewn ysgolion trwy feithrin cysylltiadau rhwng athrawon, ymarferwyr a lleoliadau'r celfyddydau, sefydliadau diwylliannol a threftadaeth fel orielau, canolfannau'r celfyddydau, amgueddfeydd, llyfrgelloedd ac archifau. Partneriaeth rhwng chwe Awdurdod Lleol y Gogledd a GwE - sef Consortia Addysg y rhanbarth - yw Edau. Mae Edau yn cynorthwyo athrawon ac ymarferwyr i ddatblygu eu sgiliau, eu hyder a'u profiad ym maes y celfyddydau mynegiannol, ac rydyn ni'n cynnig amrywiaeth eang o gyfleoedd datblygu proffesiynol ym maes cerddoriaeth, y celfyddydau, dawns a drama, yn ogystal â chynnal datblygiad gweithgarwch creadigol newydd yn ystafell ddosbarth ac yn ein lleoliadau diwylliannol.

**Mae 94% o'r bobl sydd wedi mynychu ein sesiynau'n cytuno eu bod wedi dysgu rhywbeth newydd**

**Roedd 89% o'r bobl sydd wedi mynychu wedi cwrdd â phobl newydd**

**Mae 95% o'r rhai sydd wedi mynychu sesiynau'n cytuno bod yr achlysur wedi bodloni eu disgwyliadau**